PRIFYSGOL BANGOR

ADRODDIAD
Arolygu ac Adolygu

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

2006 :: 2007

CYNNWYS

1 Rhagarweiniad a'r Broses Fonitro 1

2 Trefniadau Gweinyddol 4

3 Agweddau Gweinyddol 5

4 Materion Staffio 12

4.1 Gweinyddol 15
4.2 Academaidd 16

5 Darpariaeth Academaidd 19

6 Amserlen a Chwynion 34

7 Targedau i'w Hadolygu 36

7.1 Gweinyddol 38
7.2 Academaidd 41

8 Targedau Newydd 42

8.1 Gweinyddol 42
8.2 Academaidd 44

Atodiadau

I. Ystadegau Iaith Gymraeg 2006/7
II. Cofnodion Pwyllgorau

Adroddiad Blynyddol ar Weithredu'r Cynllun Iaith Cymraeg 2006 :: 2007

Adran 1 :: Rhagarweiniad

1.1 Cyffredinol

1.1.1 Cafodd Cynllun Iaith, Addysg a Hyfforddiant (y Cynllun) Prifysgol Bangor (y brifysgol) ei gymeradwyo yn statudol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (Y Bwrdd) ar 29 Medi 2000.

1.1.2 Yn ystod y deunaw mis diwethaf aethpwyd ati i adolygu a diwygio'r Cynllun hwnnw. Cafodd agweddau gweinyddol y Cynllun diwygiedig eu cymeradwyo gan Gyngor y Brifysgol ar 7 Gorffennaf 2006 a throsglwyddwyd agweddau academaidd y Cynllun diwygiedig i sylw Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Gorffennaf 2007. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2007/8, fe fydd y ddwy ddogfen yn cael eu cyplysu a'u cyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth statudol y Bwrdd.

1.1.3 Hwn yw'r chweched adroddiad monitro a luniwyd ar gyfer y Bwrdd ac y mae'n canolbwyntio ar y cyfnod gweithredu rhwng Medi 2006 ac Awst 2007.

1.1.4 Lluniwyd yr adroddiad ar batrwm yr hyn a amlinellwyd yn y ddogfen 'Canllawiau ar gyfer Paratoi Adroddiad Blynyddol ar Weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd yn Hydref 2004.

1.1.5 Wrth gloriannu sut y gweithredwyd gofynion y Cynllun mewn adroddiadau blaenorol, bu tuedd i bwysleisio'r cynnydd a wnaed o ran normaleiddio dwyieithrwydd yng ngweinyddiaeth y sefydliad ar y naill law gan gydnabod yr anawsterau a wynebir wrth geisio gwneud cynnydd cyfatebol o ran y ddarpariaeth academaidd ar y llaw arall. Patrwm ychydig yn wahanol a amlygwyd yn ystod 2006/7. Nodwedd amlycaf a mwyaf calonogol yr adroddiad hwn yw'r cynnydd sylweddol a welwyd yn niferoedd y myfyrwyr a ddewisodd ymgymryd â'u cyrsiau (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) trwy gyfrwng y Gymraeg. Y mae cynnydd o 20% yn y CALlau cyfrwng Cymraeg yn destun balchder gwirioneddol. Ar ochr arall y glorian, fodd bynnag, y mae'r gostyngiad a welwyd mewn penodiadau dwyieithog ar gyfer swyddi newydd yn destun pryder.

1.1.6 Bu'r gwaith o baratoi'r adroddiad hwn o dan ofal Dr Llion Jones, Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr[1], Prifysgol Bangor. Cafwyd cyfraniadau allweddol i'r broses o gywain deunyddiau ar ei gyfer gan nifer helaeth o staff y brifysgol. O ran y dystiolaeth ystadegol y cyfeirir ati yn yr adroddiad, cafwyd cymorth sylweddol o du'r Swyddfa Cynllunio ac Adnoddau a'r Adran Adnoddau Dynol.

Dylid cyfeirio pob ymholiad ynghylch yr adroddiad hwn at:
Dr Llion Jones
Cyfarwyddwr
Canolfan Bedwyr
☎ 01248 388054
llion.jones@bangor.ac.uk

1.2 Y Broses Fonitro

1.2.1 Y mae gan y brifysgol strwythur cadarn o bwyllgorau yn ei le ar gyfer goruchwylio gweithrediad y Cynllun. Y mae'r pwyllgorau hyn, drwy wahanol lwybrau, yn atebol i'r Pwyllgor Gweithredu a'r Cyngor.

1.2.2 **Y Pwyllgor Gweithredu**, trwy'r Grŵp Tasg Strategaeth yr Iaith Gymraeg (TASIG) sy'n gyfrifol am agweddau academaidd y Cynllun a'r **Cyngor** trwy'r Pwyllgor Dwyieithrwydd sydd â'r cyfrifoldeb am weinyddu a hyrwyddo'r agweddau gweinyddol. Mae'r atebolrwydd hwn yn sicrhau bod y gwaith o weithredu'r Cynllun yn dwyn awdurdod llawn y brifysgol.

1.2.3 Mae'r **Grŵp Tasg Strategaeth yr Iaith Gymraeg (TASIG)** o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor Cyfrwng Cymraeg ac Ehangu Cyfranogaeth yn uniongyrchol atebol i'r Pwyllgor Gweithredu (y grŵp rheoli hŷn) trwy'r cadeirydd. Mae'r grŵp tasg hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o blith staff academaidd pob un o'r chwe choleg[2] (yn cynnwys Cymrodyr Dysgu) ynghyd â'r gwasanaethau canolog ac yn gyfrifol am gynllunio twf cyfrwng Cymraeg o fewn cyrsiau academaidd. Er mwyn hwyluso hynny, y mae'r cadeirydd hefyd yn gyfrifol am fonitro staffio academaidd y sefydliad ac am sicrhau bod polisïau staffio canolfannau adnoddau yn rhoi ystyriaeth i ddatblygiad dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddysgu dwyieithog. Y mae cylch gorchwyl TASIG wedi'i ddiffinio fel a ganlyn:

---

[1] Yn ystod y flwyddyn o dan sylw, Dr Llion Jones oedd y swyddog gyda gofal am y Cynllun Iaith. Yn dilyn ei benodi yn Gyfarwyddwr Canolfan Bedwyr ym mis Medi 2007, hysbysebwyd am swyddog i ganolbwyntio ar y gwaith o fonitro a datblygu'r Cynllun Iaith. Gan nad oedd swyddog yn ei le ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, y mae Dr Llion Jones wedi cymryd y cyfrifoldeb o'i baratoi. At y dyfodol, gobeithir y bydd y swyddog newydd yn paratoi'r Adroddiad Blynyddol ar y cyd â Chyfarwyddwr Canolfan Bedwyr.

[2] Ym mis Awst 2006 ail-strwythurwyd gweithgareddau academaidd y brifysgol ar ffurf chwe choleg, sef:
Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau
Coleg Busnes, Gwyddorau Cymdeithas a'r Gyfraith
Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes
Coleg Gwyddorau Naturiol
Coleg Iechyd a Gwyddorau Ymddygiad
Coleg Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol

- Llunio, adolygu, goruchwylio a gweithredu strategaeth cyfrwng Cymraeg (addysgu, ymchwil, gweithgaredd ysgolheigaidd arall, a gweithgareddau trydedd genhadaeth)
- Hybu ac ymestyn datblygiadau astudio o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynghori ac arolygu cyllido cyfrwng Cymraeg a, lle bo hynny'n briodol, pennu unrhyw gyllid addysgu cyfrwng Cymraeg. Ceisio cyllid allanol ar gyfer datblygiadau cyfrwng Cymraeg
- Derbyn ac ystyried adroddiadau gan yr Ysgol Astudiaethau trwy'r Gymraeg
- Derbyn adroddiad monitro blynyddol y Cynllun Iaith
- Adrodd i'r Pwyllgor Gweithredu

1.2.4 Y mae'r **Ysgol Astudiaethau Trwy'r Gymraeg** yn cyfarfod yn ffurfiol deirgwaith y flwyddyn ac yn cadw golwg ar y ddarpariaeth academaidd drwy'r Gymraeg. Mae aelodaeth o'r Ysgol yn agored i bob aelod o staff academaidd a chefnogol sy'n medru'r Gymraeg ac mae ffrwyth ei thrafodaethau yn cael eu bwydo i TASIG trwy gyfrwng ei chadeirydd.

1.2.5 Cyfrifoldeb penaethiaid canolfannau adnoddau unigol yw gweinyddu a gweithredu'r Cynllun o fewn y canolfannau hynny. Y pennaeth hefyd sy'n gyfrifol am lunio cynllun datblygu ac adroddiad ar y cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn academaidd.

1.2.6 **Panel Ymgynghorol y Cynllun Iaith** (PYCI), sy'n cyfarfod bob 5/6 wythnos o dan gadeiryddiaeth Dirprwy Is-Ganghellor Cyfrwng Cymraeg ac Ehangu Cyfranogaeth, sy'n gyfrifol am y materion gweithredol sydd ynghlwm wrth weithredu'r Cynllun Iaith o ddydd i ddydd. Yn ystod y flwyddyn dan sylw, cynhaliwyd 6 cyfarfod o PYCI.

1.2.7 Gwaith y **Pwyllgor Dwyieithrwydd** yw arolygu gweithredu'r Cynllun Iaith yn flynyddol. Bydd y pwyllgor yn goruchwylio'r monitro blynyddol a'r gwaith o baratoi'r adroddiad hwn. Fe fydd cyfarfod arbennig o aelodau'r Pwyllgor Dwyieithrwydd a TASIG yn cael ei gynnull i drafod cynnwys yr Adroddiad Blynyddol.

1.2.8 Yn flynyddol, fe fydd Panel Ymgynghorol y Cynllun Iaith mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Dwyieithrwydd yn pennu ymarferiad monitro swyddogol ar weithrediad y Cynllun. Yn ystod y flwyddyn dan sylw, yn wyneb y ffaith bod y strwythurau colegol newydd yn parhau i ymsefydlu, penderfynwyd peidio ag ailadrodd y cyfnod monitro dwys a gafwyd yn 2005/6. Bwriedir adfer y drefn honno yn 2007/8 trwy gynnal ymarferiad o'r fath ym mis Mehefin 2008.

1.2.9 O ran y monitro academaidd, yn unol â'r drefn arferol, bu'r Dirprwy Is-Ganghellor Cyfrwng Cymraeg ac Ehangu Cyfranogaeth yn cynnal cyfarfodydd gyda nifer o benaethiaid gwahanol ysgolion academaidd. Yn ystod y cyfarfodydd hynny, rhoddwyd sylw penodol i ddatblygiad y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr ysgolion hynny yng nghyd-destun y cynlluniau cenedlaethol ar gyfer y gwahanol feysydd pwnc.

1.2.10 Mae'r broses o ddilysu modiwlau newydd yn hwyluso'r gwaith o gyflwyno fersiwn Cymraeg neu ddwyieithog o fodwl sy'n bodoli eisoes yn y Saesneg. Yn ystod y flwyddyn dan sylw, manteisiodd nifer o ysgolion academaidd ar y broses hon wrth ddatblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

1.2.11 Yn ystod 2006/7 sefydlwyd **Academi o Gymrodyr Dysgu'r Brifysgol** fel cyfrwng i ledaenu ymarfer da drwy'r sefydliad. Bydd trafodaethau'r Academi yn cynnwys elfennau sy'n berthnasol i hwyluso dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a dysgu dwyieithog.

Adran 2 :: Trefniadau Gweinyddol

2.1.1 Mae'r Cynllun Iaith wedi'i osod ar dudalennau Canolfan Bedwyr ac Adnoddau Dynol ar wefan y brifysgol. Fe'i cynhwysir hefyd ar y gofrestr polisïau ar fewnrwyd y brifysgol.

2.1.2 Mae'r Adroddiadau Blynyddol ar sut y mae'r Cynllun yn cael ei weithredu yn y brifysgol hefyd yn cael eu gosod ar wefan Canolfan Bedwyr. Ar ôl derbyn cydnabyddiaeth y Bwrdd eu bod wedi derbyn yr Adroddiad Blynyddol, gosodir nodyn ar fewnrwyd y brifysgol i hysbysu staff ei fod ar gael.

2.1.3 Y Cyd-gysylltwyr Cynllun Iaith sydd yn gyfrifol am hybu gweithredu'r Cynllun a'i amcanion o fewn y canolfannau adnoddau academaidd.

2.1.4 Mae cyswllt gweinyddol yn bodoli hefyd ym mhob canolfan adnoddau (gan gynnwys y gwasanaethau canolog) i ddibenion monitro.

2.1.5 Yn sgil ail-strwythuro gweithgareddau academaidd y brifysgol ar ffurf chwe choleg ym mis Awst 2006, y mae aelod o fwrdd pob coleg unigol wedi derbyn cyfrifoldeb penodol am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg. Trwy gydweithio â'r cyd-gysylltwyr o fewn yr ysgolion academaidd, y gobaith yw sefydlu cnewyllyn o staff a fydd yn gyfrifol am hyrwyddo amcanion y Cynllun ar lefel golegol. Mae'r ymrwymiad hwn i bennu 'pleidiwr' ar gyfer materion Cymraeg ym mhob coleg yn rhan o gynllun strategol y brifysgol ar gyfer 2005-10[3].

2.1.6 Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn cynnwys gwybodaeth sy'n nodi bod y sefydliad yn gweithredu Cynllun Iaith yn y pecynnau a anfonir at ddarpar ymgeiswyr.

2.1.7 Mae cyflwyniad i'r Cynllun Iaith a'i oblygiadau ymarferol gan gynrychiolydd o Ganolfan Bedwyr yn eitem sefydlog ar raglen y sesiynau cynefino a gynhelir yn fisol gan Adnoddau Dynol ar gyfer staff sy'n newydd i'r sefydliad. Traddodir y cyflwyniad trwy gyfrwng y Gymraeg gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y di-gymraeg.

[3] Mae'r Cynllun Strategol 'Cynaladwyedd trwy ragoriaeth' yn datgan mai nod y brifysgol yw diogelu a chryfhau ei safle "fel y sefydliad arweiniol yng Nghymru o ran darparu addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg, yn nhermau maint ac ehangder cyrsiau, ac o ran arbenigedd seiliedig ar ymchwil ac arfer".

2.1.8 Mae'r drefn bwyllgorau yn fodd i dynnu sylw at weithredu'r Cynllun ac unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â hynny gan fod y Dirprwy Is-Ganghellor sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg ac sy'n cadeirio TASIG hefyd yn cadeirio PYCI ac yn aelod o bwyllgor gweithredu'r brifysgol. Yn ymarferol felly, y mae'n gallu dod ag unrhyw fater i sylw'r Is-Ganghellor a'r uwch swyddogion.

2.1.9 Y mae'r ymweliadau a wneir gan Ganolfan Bedwyr wrth fonitro agweddau gweinyddol y Cynllun hefyd yn fodd ymarferol o ddwyn y Cynllun i sylw'r adrannau dan sylw. Felly hefyd yr ymweliadau a wneir gan y Dirprwy Is-Ganghellor i drafod agweddau academaidd o fewn yr adrannau.

Adran 3 :: Agweddau Gweinyddol

3.1 Polisïau a Mentrau Newydd

Yn gyffredinol, y mae'r sefydliad yn bur hyderus bod yr ymwybyddiaeth o'r angen i ystyried goblygiadau'r Cynllun Iaith wedi ei normaleiddio. Ymhlith nifer o enghreifftiau o'r normaleiddio hwn a welwyd yn ystod 2006/7 gellir cyfeirio at yr achosion a ganlyn:

3.1.1 Yn y broses o brynu system gyfrifiadurol i weithredu holl brosesau Adnoddau Dynol a'r Swyddfa Gyllid rhoddwyd blaenoriaeth uchel i systemau a oedd wedi'u cynllunio i ddarparu gwasanaeth amlieithog. O'i chyfieithu, y mae'r system a brynwyd maes o law, *Agresso*, yn un y bydd modd ei datblygu i gynnig holl wasanaethau, dogfennaeth a ffurflenni Adnoddau Dynol a'r swyddfa Gyllid yn newis iaith y defnyddiwr.

3.1.2 Yn sgil lansio'r Ganolfan Rheoli Iaith ar gyfer cyfrifiaduron personol, cytunodd Gwasanaethau Technoleg ar y bwriad i osod y ganolfan ar bob cyfrifiadur y mae mynediad agored iddynt yn y brifysgol.

3.1.3 Ar gais PYCI cytunodd Adnoddau Dynol i gynnwys pecynnau Twf, sy'n codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni a darpar rieni am werth dwyieithrwydd cynnar, yn y pecynnau sy'n cael eu darparu gan y brifysgol ar gyfer aelodau o staff sy'n mynd ar gyfnod o famolaeth neu dadolaeth.

3.2 Gohebu â'r Cyhoedd

3.2.1 Bydd unrhyw ohebiaeth gyffredinol sy'n cael ei hanfon am y tro cyntaf i rai yng Nghymru yn ddwyieithog. Er bod achosion unigol o fethu â gweithredu'r gofyn hwn yn cael eu dwyn i sylw PYCI o dro i dro, y mae'r egwyddor hon wedi'i chysoni yn ganolog ac ar draws yr adrannau.

3.2.2 Yn yr un modd, y mae'r drefn o ymateb i ohebiaeth yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol bellach yn cael ei gweithredu'n llawn.

3.2.3 Yn achos myfyrwyr sydd wedi cofrestru, y mae'r Gofrestrfa'n ysgrifennu yn y Gymraeg yn achos y myfyrwyr a ofynnodd am hynny. Fel yr eglurwyd mewn adroddiadau blaenorol, y mae'r wybodaeth honno yn cael ei chasglu yn ystod y

broses gofrestru ac yna'n cael ei chofnodi yn system *Banner*. Ar gyfer 2006/7 roedd y niferoedd fel a ganlyn:

	2006/7	***2005/6***	***2004/5***	***2003/4***
Gofyn am ohebiaeth Gymraeg	776	*698*	*674*	*614*
Dysgu Cymraeg	921	*826*	*836*	*802*
Siarad Cymraeg ond am gael gohebiaeth Saesneg	1133	*1202*	*1065*	*1061*
Cyfanswm	**2830**	***2726***	***2575***	***2477***

Fel y gwelir o'r tabl, bu cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n gofyn am ohebiaeth Gymraeg yn ystod 2006/7 a gostyngiad cyfatebol yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno derbyn eu gohebiaeth yn Saesneg. Wedi dweud hynny, y mae'r nifer hwnnw (1133) yn parhau i fod yn sylweddol iawn. Yn ymarferol, fodd bynnag, ac yn sgil y ffaith fod llawer iawn o'r ohebiaeth bellach yn cael ei throsglwyddo'n electronig, y mae tuedd gynyddol i ddosbarthu deunyddiau dwyieithog. Fel y dangosodd arolwg a gynhaliwyd gan y Gofrestrfa Academaidd ar ran y Pwyllgor Dwyieithrwydd ym mis Ionawr 2006, derbyn gohebiaeth a dogfennaeth yn ddwyieithog fyddai'r dewis cyntaf ar gyfer mwyafrif y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith.

3.2.4 Gan fod yr wybodaeth am ddewis iaith myfyrwyr yn agored i gyd-gysylltwyr iaith yr ysgolion academaidd trwy system *Banner*, y mae modd i ganolfannau academaidd ddilyn y drefn a amlinellir yn y Cynllun Iaith yn achos gohebiaeth swyddogol gyda myfyrwyr.

3.2.5 Y drefn mewn nifer o ganolfannau adnoddau lle nad oes ysgrifenwyr Cymraeg hyderus yw defnyddio cyfieithwyr y brifysgol ar gyfer cyfieithu'r ohebiaeth. Mae'r drefn hon yn gadarn yn ei lle ac mae pob adran yn ymwybodol ohoni.

3.2.6 Yn achos gohebiaeth yn ymwneud â chyrsiau myfyrwyr, y mae darlithwyr unigol yn gwneud hynny'n ddwyieithog neu'n defnyddio'r iaith a ddefnyddir fel rheol ar gyfer cyfathrebu'n bersonol neu o fewn y modiwl.

3.2.7 O ran gofynion y Cynllun, y mae unrhyw gyfathrebu electronig yn cael ei drin yn yr un ffordd â gohebiaeth gyffredinol.

3.3 Cysylltu dros y ffôn

3.3.1 Mae pob adran yn ymwybodol o'r angen i ddelio â galwadau ffôn yn ôl yr hyn a amlinellir yn y Cynllun Iaith (3.2.2). Gyda phenodiad 'Swyddog Datblygu a Hyrwyddo'r Gymraeg' yng Nghanolfan Bedwyr y gobaith yw gallu darparu mwy o gymorth ymarferol i adrannau yng nghyswllt gweithredu gofynion sylfaenol o'r fath, a hynny mewn cydweithrediad â'r Ysgol Dysgu Gydol Oes.

3.3.2 Yn ôl trefn arferol pethau, fe fydd Canolfan Bedwyr yn ymdrin ag enghreifftiau o unigolion mewn adrannau sy'n gweithredu'n groes i'r drefn trwy eu hatgoffa o'r polisi. Mae'r monitro answyddogol hwn yn digwydd yn barhaus.

3.4 Cyfarfodydd a chyfieithu-ar-y-pryd

3.4.1 Cyfarfodydd Mewnol

Yn ystod y cyfnod dan sylw ni chynhaliwyd y cyfarfod blynyddol arferol rhwng y Cofrestrydd, y Dirprwy Is-Ganghellor, pennaeth yr Uned Gyfieithu a Chyfarwyddwr Canolfan Bedwyr i adolygu'r rhestr swyddogol o gyfarfodydd y darperir cyfleusterau cyfieithu ar-y-pryd ar eu cyfer. Fe gafwyd cyfarfod ym mis Medi 2007, fodd bynnag, lle cafwyd adolygiad sylweddol o'r rhestr cyfarfodydd. Adroddir ar yr adolygiad hwnnw yn adroddiad 2007/8, ond ar gyfer dibenion yr adroddiad hwn, y mae'r rhestr swyddogol o gyfarfodydd dwyieithog yn aros fel a ganlyn:

- Y Llys
- Y Cyngor
- Y Senedd
- Bwrdd Penaethiaid Academaidd
- Grŵp Tasg Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg (pan fo angen)
- Grŵp Tasg Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd
- Grŵp Tasg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Grŵp Tasg Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Grŵp Tasg Gwasanaethau Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr
- Grŵp Tasg Mynediad a Chynhwysiad Cymdeithasol
- Ysgol Astudiaethau trwy'r Gymraeg (pan fo angen)
- Pwyllgor Dwyieithrwydd
- Rhai Paneli Penodi (lle bo'n berthnasol)

Dylid pwysleisio bod modd gwneud cais i'r uned gyfieithu fod yn bresennol mewn cyfarfodydd eraill hefyd. Fel y gwelir yn adran 3.10 o'r adroddiad hwn, y mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y galw am y gwasanaeth hwn, gyda'r Ysgol Addysg, yr Ysgol Gwyddorau Iechyd a'r Coleg Celfyddydau a Dyniaethau ymhlith yr adrannau academaidd sydd wedi manteisio'n helaeth ar y ddarpariaeth ar gyfer eu cyfarfodydd mewnol ac allanol. Yng nghyd-destun y pwyslais cenedlaethol ar flaenoriaethu maes yr Amgylchedd ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, y mae'n galonogol gallu adrodd fod Ysgol yr Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol hithau wedi galw ar wasanaeth yr uned gyfieithu er mwyn cynnal cyfarfod o'i Bwrdd Astudiaethau yn ddwyieithog, a hynny am y tro cyntaf yn ei hanes.

Yn sgil y galw cynyddol hwn ac yn wyneb y galw tebygol a ddaw oddi wrth y colegau newydd, lluniwyd achos busnes ar gyfer creu swydd cyfieithydd ar y pryd arbenigol.[4]

[4] Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (Ionawr 2008) y mae'r swydd wedi'i hysysebu yn y wasg genedlaethol gyda'r gobaith o benodi erbyn mis Mawrth 2008.

3.4.2 Cyfarfodydd Cyhoeddus
Mae'r drefn a adolygwyd gan PYCI mewn ymgynghoriad â'r Cofrestrydd yn ystod y flwyddyn 2003/4 yn parhau yn weithredol ac wedi'i hymgorffori o fewn y Cynllun Iaith diwygiedig. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn gysylltiedig â'r drefn yn ystod y flwyddyn.

3.5 Delwedd Gyhoeddus

3.5.1 Mae logo'r brifysgol yn gwbl ddwyieithog.

3.5.2 Mae arwyddion allanol naill ai'n ddwyieithog neu, yn achos yr enwau ar rai adeiladau, yn Gymraeg yn unig.

3.5.3 Mae'r Adran Ystadau a Chyfleusterau sy'n gyfrifol am archebu arwyddion ac am osod arwyddion iechyd a diogelwch yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith ac felly mewn sefyllfa i atgoffa adrannau ohonynt pan fyddant yn archebu arwyddion newydd. Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd trefn benodol i sicrhau bod y swyddog yn yr Adran Ystadau sy'n gyfrifol am archebu arwyddion yn ymgynghori'n llawn gyda'r Uned Gyfieithu trwy gydol y broses.

3.5.4 Mae'r uned Croeso-Welcome Bangor o fewn yr Adran Ystadau a Chyfleusterau yn gweithredu fel hidlydd arall trwy sicrhau bod yr holl brif arwyddion yn achos unrhyw gynhadledd a fydd yn cael ei threfnu o fewn y brifysgol ym Mangor (gan gyrff allanol yn ogystal â chanolfannau adnoddau mewnol) yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith.

3.5.5 O safbwynt y brifysgol yn gorfforaethol y mae'r deunydd canlynol ar gael yn ddwyieithog:
- papurau pennawd
- papurau memo
- taflenni ffacs
- bathodynnau staff
- slipiau cyfarch
- slipiau cyflog
- cardiau (Llyfrgell/Undeb y Myfyrwyr)
- mapiau safle
- cardiau busnes
- arwyddion ar gerbydau

3.5.6. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, y mae amrywiaeth o safbwynt deunyddiau eraill y mae'r canolfannau adnoddau'n gyfan gwbl gyfrifol amdanynt. Mae'r deunydd a ganlyn fel arfer ar gael yn ddwyieithog:
- ffurflenni
- posteri
- derbynebau
- anfonebau
- sieciau
- bwydlenni
- hysbysebion bwyd

- arwyddion te/coffi

3.5.7 Mae'r deunydd canlynol hefyd ar gael yn ddwyieithog o fewn rhai canolfannau:
- pamffledi/taflenni
- papur ffacs
- llyfrynnau
- adroddiadau

3.6 Cyhoeddiadau

3.6.1 Mae'r drefn yn achos cyhoeddiadau wedi'i hamlinellu yn adran 3.3.4 o'r Cynllun Iaith diwygiedig.

3.6.2 Pwysleisir mai iaith y cylchgrawn/noddwr ymchwil sy'n rheoli cyfrwng cyhoeddiadau academaidd, ond bydd y brifysgol yn annog cyhoeddiadau academaidd dwyieithog, yn arbennig felly yn y meysydd cwricwlaidd a gynigir trwy'r Gymraeg. Yn y cyswllt hwn, y mae aelodau o staff academaidd y brifysgol (fel aelodau o'r Bwrdd Golygyddol ac fel cyfranwyr) wedi bod yn weithredol yn y gwaith o roi'r cyfnodolyn academaidd traws-ddisgyblaethol *Gwerddon* ar ei draed.

3.6.3 Gan fod arolygon ansawdd mewnol yn cynnwys y cwestiwn 'Sut yr ymdrinnir â materion dwyieithog?', y mae adrannau canolog y brifysgol yn llwyr ymwybodol o'r hyn a amlinellir yn y Cynllun Iaith. Bydd materion fel cyhoeddiadau'r ganolfan adnoddau sy'n cael eu targedu at y cyhoedd yn rhan o'r archwiliad hwnnw. Ymdrinnir â chyhoeddiadau'r Adran Farchnata yn Adran 5.2.

3.7 Ffurflenni, Taflenni a mathau eraill o Lenyddiaeth

3.7.1. Fel gyda'r cyhoeddiadau, dilynir y drefn sy'n cael ei hamlinellu yn y Cynllun Iaith diwygiedig (3.3.5). Ni ddaethpwyd ag unrhyw enghreifftiau o fethu â chydymffurfio â'r drefn hon i sylw PYCI yn ystod y flwyddyn.

3.7.2. Yn achos deunyddiau hysbysebu ar stondinau ac mewn arddangosfeydd, y mae'r drefn a argymhellwyd gan PYCI yn 2002/3 yn parhau yn ei rym, sef:
- y dylai'r prif hysbysiadau fod yn ddwyieithog
- y dylid cael crynodeb yn Saesneg o brif ddarganfyddiadau neu brif weithgareddau unrhyw broject cyfrwng Cymraeg sy'n cael ei arddangos
- y dylai bod crynodeb tebyg yn y Gymraeg gyda deunydd project cyfrwng Saesneg sy'n cael ei arddangos yng Nghymru.

3.8 Datganiadau i'r Wasg

3.8.1 Mae perthynas y brifysgol â'r cyfryngau o dan ofal Swyddog y Wasg sy'n gweithredu'n gwbl ddwyieithog yn ei gwaith.

3.8.2 Yn unol â'r drefn a amlinellir yn y Cynllun Iaith diwygiedig (3.3.6), y mae pob un datganiad a ryddheir gan y brifysgol i'r wasg neu ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog. Yn ystod 2006/7, rhyddhawyd 163 o ddatganiadau dwyieithog i'r wasg yng Nghymru. Mae nifer ohonynt i'w gweld yn adran newyddion gwefan y brifysgol (www.bangor.ac.uk/news/index.php.cy).

3.8.3 Yn unol â'r Cynllun eto, bydd unrhyw gysylltiad pellach â'r wasg neu'r cyfryngau yng Nghymru yn Gymraeg neu Saesneg yn dibynnu ar iaith y gohebydd a/neu'r papur newydd, cylchgrawn neu raglen. Yn y cyswllt hwn, y mae gan Swyddfa'r Wasg bolisi pendant o ymateb i ymholiadau gan y wasg a'r cyfryngau yn iaith yr ymholydd.

3.8.4 Mae Swyddfa'r Wasg yn sicrhau bod llefarydd yn y ddwy iaith ar gael i'w cyfweld ar faterion corfforaethol y brifysgol. Nid yw hyn bob tro'n bosib wrth ddarparu datganiadau ar feysydd arbenigol er bod y cyfeirlyfr arbenigaeth y mae Swyddfa'r Wasg yn gyfrifol amdano yn cynnwys cryn nifer o siaradwyr Cymraeg.

3.8.5 Swyddfa'r Wasg sydd hefyd yn gyfrifol am newyddlen fewnol y brifysgol. Cynhyrchir y newyddlen honno yn gwbl ddwyieithog. Felly hefyd Arolwg Blynyddol y brifysgol.

3.8.6 Y mae'r digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir ym mhabell y Brifysgol ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn rhan o gyfrifoldeb Swyddfa'r Wasg. Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol 2007 yn Yr Wyddgrug cynhaliwyd cynifer ag ugain o ddigwyddiadau o'r fath.

3.8.7 Ni chafwyd unrhyw gŵyn yn ystod y flwyddyn ynglŷn ag unrhyw wyro oddi ar y polisïau hyn.

3.9 Trydydd Parti

3.9.1 Y mae adran benodol yn y Cynllun Iaith diwygiedig (3.4.5) ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth cwmnïau neu asiantaethau trydydd parti â gofynion y Cynllun Iaith.

3.9.2 Y mae cydymffurfiaeth â'r Cynllun Iaith yn elfen a nodir ar y dogfennau tendro a ddefnyddir gan yr Adran Ystadau a Chyfleusterau.

3.10 Sylwadau Pellach

3.10.1 Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, un arwydd digamsyniol o'r modd y mae ymwybyddiaeth o ofynion y Cynllun Iaith wedi cynyddu ar draws y sefydliad yw prysurdeb eithriadol yr Uned Gyfieithu. O fewn yr Uned, y mae tîm o bedwar cyfieithydd yn gweithio'n llawn amser ar ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf.

Unwaith eto eleni, er mwyn ceisio mesur maint y galw am wasanaeth yr Uned Gyfieithu, gwnaed awdit llawn o'r gwaith a gyflawnwyd gan yr uned yn ystod mis Mawrth 2007 a hynny ar yr un patrwm â'r awdit a wnaed ym Mawrth 2006. Wrth fwrw golwg dros waith yr uned yn ystod y mis dan sylw, cafwyd bod cyfanswm o 272,670[5] o eiriau wedi'u cyfieithu rhwng y 4 cyfieithydd (o'i gymharu â 210,00 ar gyfer y llynedd). Yn ogystal â hyn, darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn 14 o bwyllgorau yn ystod y mis gyda dau gyfieithydd yn bresennol mewn dau ohonynt a thri chyfieithydd yn bresennol mewn un cyfarfod. Yn ystod y mis hefyd, daeth ceisiadau i brawf-ddarllen a golygu gwaith a ysgrifennwyd yn Gymraeg yn wreiddiol. Yn gyfan gwbl, cyfrifwyd bod 2000 o eiriau wedi'u prawf-ddarllen gan yr uned. Ar ben hyn, cyfieithwyd 1145 o eiriau gan gyfieithwyr allanol a bu'n rhaid prawf-ddarllen y dogfennau hyn yn ogystal.

Mae rhestr o'r cwsmeriaid y darparwyd cyfieithiadau ar eu cyfer yn ystod y mis dan sylw yn amlygu'r modd y mae gofynion y Cynllun Iaith wedi treiddio drwy'r sefydliad ac ar draws yr ysgolion academaidd, y canolfannau ymchwil a'r adrannau gwasanaeth fel ei gilydd:

Addysg
Busnes
CALU
CEH
Cemeg
Cerddoriaeth
Cofrestrfa Academaidd
Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau
Cyllid
Cynllunio
Diwinyddiaeth
Dysgu Gydol Oes
Gwasanaethau Gwybodaeth
Gwyddorau Cymdeithasol
Gyrfaoedd
Iechyd a Diogelwch
Ieithoedd Modern
IMSCAR
Jobmart
Llyfrgell
Marchnata
Neuaddau Preswyl
Porth Arloesi
Recriwtio Myfyrwyr
Seicoleg
Swyddfa'r Dirprwy Is-Ganghellor

[5] Yn y sector cyfieithu preifat y mae disgwyl i gyfieithydd profiadol llawn amser allu cynhyrchu rhwng 10,000-15,000 o eiriau o gyfieithu gorffenedig a chaboledig yr wythnos.

Swyddfa'r Is-Ganghellor
Y Gyfraith
Ystadau a Chyfleusterau

Adran 4 :: Materion Staffio

Rhagarweiniad - Data Gweinyddol ac Academaidd

Yn unol ag un o'r targedau a osodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2005/6 fe gynhaliwyd awdit llawn o alluoedd ieithyddol holl staff y Brifysgol gan Adnoddau Dynol yn ystod mis Mehefin 2007. Er bod y ganran a oedd wedi cwblhau'r holiadur ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ychydig yn siomedig (oddeutu 60%)[6], y mae'r ffaith fod yr awdit wedi'i gynnal yn golygu bod y data sy'n sail i'r tablau a ganlyn gryn dipyn yn fwy cyfredol a dibynadwy na'r data a ddefnyddiwyd mewn adroddiadau blaenorol. Trwy gyplysu canlyniadau awdit Mehefin 2007 ynghyd â'r wybodaeth sy'n cael ei chofnodi ar ffurflenni cais staff newydd, y mae'r data presennol yn cynrychioli ymateb gan gynifer â 96% o staff y brifysgol. Wrth gydnabod bod cyfran fechan o'r data hwn yn parhau i fod yn seiliedig ar holiadur a weinyddwyd yn 2002, y mae'r data, at ei gilydd, yn cynnig trosolwg defnyddiol iawn o alluoedd ieithyddol y staff. Wrth reswm, y mae'r ffaith fod y data yn cynnwys gwybodaeth am staff newydd a benodwyd yn ystod y flwyddyn yn golygu fod modd canfod hefyd rai tueddiadau o fewn patrymau cyflogi cyfredol y sefydliad.

Cafodd y data sy'n sail i'r tablau canlynol ei gywain ynghyd ym mis Medi 2007. Er nad yw'r dyddiad hwnnw o fewn y cyfnod monitro, dyma'r set ddata sydd fwyaf perthnasol at y flwyddyn dan sylw.

Mae Tabl 1 yn dangos faint o staff a oedd yn gallu defnyddio'r gwahanol sgiliau Cymraeg, faint oedd yn dysgu gwneud hynny a faint oedd yn analluog i wneud dim trwy'r Gymraeg. Mae'n cynnwys y categorïau academaidd (sef y pedwar categori uchaf) a'r rhai gweinyddol.

O ystyried y newid a fu yn ansawdd y data y mae'n syndod mewn gwirionedd cyn lleied o newid a welir wrth gymharu ystadegau 2006/7 gydag ystadegau 2005/6. Y mae'n werth nodi, serch hynny, y cynnydd a welir yn niferoedd a chanrannau siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.

[6] Mae Adnoddau Dynol wedi ymrwymo i gynyddu canran yr ymatebwyr trwy atgoffa staff yn gyson o'r angen i lenwi'r holiadur.

Tabl 1 :: Sgiliau leithyddol y Staff

Categori	Siarad Cy.		Dim yn gallu siarad Cy.		Dysgu Cy.		Darllen Cy.		Dim yn gallu darllen Cy.		Dysgu darllen Cy.		Ysgrifennu Cy.		Dim yn gallu ysgrifennu Cy.		Dysgu ysgrifennu Cy.		Gallu darlithio yn Gy.		Yn darlithio Yn Gy.	
Academaidd	198	37%	232	42%	109	20%	181	37%	230	46%	86	17%	171	35%	245	49%	79	16%	116	21%	73	13%
	189	*38%*	*225*	*44%*	*89*	*17%*	*147*	*36%*	*207*	*50%*	*59*	*14%*	*142*	*34%*	*218*	*53%*	*54*	*13%*	*69*	*12%*	*52*	*9%*
ALC	139	48%	70	24%	80	28%	131	48%	78	29%	64	23%	119	44%	88	32%	66	24%				
	127	*48%*	*70*	*26%*	*69*	*26%*	*106*	*44%*	*78*	*33%*	*54*	*23%*	*99*	*42%*	*86*	*36%*	*51*	*22%*				
OR/Staff - gysylltiedig	37	43%	27	31%	23	26%	33	41%	28	35%	19	24%	32	40%	30	37%	19	23%				
	24	*35%*	*26*	*38%*	*18*	*27%*	*22*	*37%*	*25*	*43%*	*12*	*20%*	*21*	*35%*	*26*	*43%*	*13*	*22%*				
Ymchwil	31	14%	143	64%	50	22%	31	14%	149	69%	31	17%	26	12%	155	71%	36	17%				
	26	*15%*	*118*	*66%*	*34*	*19%*	*22*	*14%*	*118*	*72%*	*23*	*14%*	*18*	*11%*	*122*	*75%*	*23*	*14%*				
Clerigol	209	58%	73	20%	77	22%	202	58%	83	24%	63	18%	182	52%	105	30%	61	18%				
	192	*54%*	*98*	*27%*	*69*	*19%*	*180*	*56%*	*94*	*29%*	*50*	*15%*	*160*	*49%*	*115*	*36%*	*50*	*15%*				
Technegol	52	53%	31	32%	15	15%	45	53%	30	35%	10	12%	43	51%	35	41%	7	8%				
	48	*50%*	*32*	*33%*	*16*	*17%*	*38*	*50%*	*32*	*42%*	*6*	*8%*	*33*	*44%*	*34*	*45%*	*8*	*11%*				
Maniwal / Goruchwylio	179	63%	76	27%	28	10%	151	60%	80	32%	19	8%	132	54%	97	39%	18	7%				
	169	*60%*	*80*	*28%*	*35*	*12%*	*128*	*58%*	*70*	*32%*	*21*	*10%*	*117*	*54%*	*78*	*36%*	*21*	*10%*				
Cyfanswm	845	45%	652	35%	382	20%	774	44%	678	39%	292	17%	705	40%	755	43%	286	17%				
	775	*44%*	*649*	*37%*	*330*	*19%*	*643*	*43%*	*624*	*42%*	*225*	*15%*	*590*	*40%*	*679*	*45%*	*220*	*15%*				
Cyfanswm ymatebwyr	1879 *1754*						1744 *1492*						1746 *1489*									

Nodiadau

Dangosir ffigyrau 2006/7 mewn print trwm a ffigyrau 2005/6 mewn print italig.

Dyddiad cywain yr ystadegau: Medi 2007

Cyfanswm staff y brifysgol ar ddyddiad cywain y data oedd 1965. Mae'r data yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan 1879 o aelodau staff, sef tua 96% o'r cyfanswm.

Mae'r ail dabl yn crynhoi'r ystadegau ar gyfer siarad yn unig.

Tabl 2 :: Canrannau Siaradwyr

Categori	Siarad Cymraeg	Dim yn gallu siarad Cymraeg	Dysgu siarad Cymraeg	Cyfanswm
Academaidd	198 37% *189 38%*	232 43% *225 44%*	109 20% *89 17%*	539 *503*
ALC	139 48% *127 48%*	70 24% *70 26%*	80 28% *69 26%*	289 266
OR/Staff - gysylltiedig	37 43% *24 35%*	27 31% *26 38%*	23 26% *18 27%*	87 *68*
Ymchwil	31 14% *26 15%*	143 64% *118 66%*	50 22% *34 19%*	224 *178*
Clerigol	209 58% *192 54%*	73 20% *98 27%*	77 22% *69 19%*	359 *359*
Technegol	52 53% *48 50%*	31 32% *32 33%*	15 15% *16 17%*	98 *96*
Maniwal / Goruchwylio	179 63% *169 60%*	76 27% *80 28%*	28 10% *35 12%*	283 *284*
Cyfanswm	845 45% *775 44%*	652 35% *649 37%*	382 20% *330 19%*	1879 *1754*

Nodiadau

Dangosir ffigyrau 2006/7 mewn print trwm a ffigyrau 2005/6 mewn print italig.

Er bod y tabl uchod yn rhoi gwedd galonogol ar ddwyieithrwydd y gweithlu, y mae'r darlun a geir wrth hoelio sylw ar y data sy'n cyfeirio at y rhai a benodwyd rhwng Hydref 2006 a Medi 2007 yn bur wahanol (tabl 3), gyda'r cyfartaledd o siaradwyr Cymraeg 15% yn is na'r cyfartaledd cyffredinol drwy'r sefydliad a chyda gostyngiadau arwyddocaol yn y categorïau academaidd ac academaidd-gysylltiedig. Y mae'n destun pryder fod y gostyngiad hwn wedi digwydd ar yr union adeg y mae'r 'Cod Ymarfer ar gyfer penodi staff yn unol â'r Cynllun Iaith' wedi'i ymgorffori yn llawn yn systemau'r brifysgol. Yng ngoleuni'r pwyslais cynyddol a roddir ar draws y sefydliad ar ddarparu gwasanaeth dwyieithog, gellid disgwyl i ganran y siaradwyr Cymraeg yn achos penodiadau newydd fod o leiaf ar un gwastad â'r cyfartaleddau cyffredinol.

Tabl 3 :: Y rhai a benodwyd rhwng Hydref 2006 a Medi 2007

Categori	Siarad Cymraeg		Dim yn gallu siarad Cymraeg		Dysgu siarad Cymraeg		Cyfanswm
Academaidd	45 *43*	31% *35%*	69 *53*	47% *44%*	33 *25*	22% *21%*	147 *121*
ALC	17 *24*	32% *49%*	23 *15*	43% *31%*	13 *10*	25% *20%*	53 *49*
OR/Staff - gysylltiedig	3 *7*	33% *23%*	5 *20*	56% *64%*	1 *4*	11% *13%*	9 *31*
Ymchwil	7 *14*	8% *20%*	63 *45*	70% *64%*	20 *11*	22% *16%*	90 *70*
Clerigol	38 *40*	55% *55%*	20 *19*	29% *26%*	11 *14*	16% *19%*	69 *73*
Technegol	5 *3*	28% *23%*	5 *6*	28% *46%*	8 *4*	44% *31%*	18 *13*
Maniwal / Goruchwylio	11 *18*	37% *23%*	15 *51*	50% *65%*	4 *9*	13% *12%*	30 *78*
Cyfanswm	126 *149*	30% *34%*	200 *209*	48% *48%*	90 *77*	22% *18%*	416 *435*

Nodiadau

Dangosir ffigyrau 2006/7 mewn print trwm a ffigyrau 2005/6 mewn print italig.

4.1 Staff Gweinyddol a Rheolaethol

4.1.1 Wrth edrych ar yr ystadegau cyffredinol (tabl 1), ar yr ochr glerigol, technegol a maniwal/goruchwylio, fe welir fel y llynedd fod canran y rhai sydd yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg yn uwch na 50%. Gyda golwg ar normaleiddio dwyieithrwydd a gweithredu gofynion y Cynllun ar draws y sefydliad, y mae'n galonogol fod y categori clerigol yn dangos cynnydd pellach o 4% eleni.

4.1.2 Ar yr ochr weinyddol, dechreuwyd ar y broses o benodi rheolwyr gweinyddol ar gyfer y chwe choleg newydd yn ystod y flwyddyn dan sylw. Gan fod cryn amrywiaeth yn natur a diwylliant ieithyddol y gwahanol golegau ni chafwyd unffurfiaeth o ran y gofyn ieithyddol ar gyfer y swyddi allweddol hyn. Yn achos y Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Coleg Celfyddydau a Dyniaethau nodwyd bod y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg (neu barodrwydd i ddysgu i wneud hynny) yn angenrheidiol ar gyfer swydd y rheolwr coleg, ond nid felly yn y colegau eraill. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, o'r chwe gweinyddwr coleg y mae dau ohonynt yn ddwyieithog.

4.1.3 Er bod y 'Cod Ymarfer ar gyfer Penodi Staff yn unol â'r Cynllun Iaith' bellach yn weithredol, fel yr awgrymwyd uchod, nid yw'n ymddangos ei fod wedi cael yr effaith a fwriadwyd yn achos penodiadau newydd. Mae'n wir

fod mecanwaith yn ei lle bellach drwy'r system *e-work* i orfodi ystyriaeth o'r gofynion ieithyddol ar gyfer pob swydd unigol, y mae'n ymddangos nad yw'r penderfyniad ynglŷn â'r gofyn ieithyddol terfynol yn cael ei fonitro'n ddigon trylwyr. I'r perwyl hwn, fel rhan o dargedau 2007/8 bwriedir gwneud awdit o'r gofynion ieithyddol y penderfynwyd arnynt yn achos y swyddi a hysbysebwyd o dan y drefn newydd yn *e-work*.

4.1.4 Mae'r brifysgol yn gweithredu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol Staff drylwyr trwy'r Adran Dysgu Gydol Oes a Chanolfan Bedwyr ar gyfer staff Gweinyddol ac Academaidd. Gyda'r cymal '… neu barodrwydd i ddysgu Cymraeg' yn dod yn fwyfwy cyffredin mewn swydd ddisgrifiadau a chyda chynifer â 22% o'r penodiadau newydd yn nodi eu bod yn dysgu Cymraeg, y mae angen gofalu bod y strategaeth yn cael ei monitro'n briodol.

4.1.5 Yng nghyswllt Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y brifysgol ar gyfer staff, un datblygiad newydd a welwyd yn ystod y flwyddyn oedd sefydlu darpariaeth dysgu Cymraeg arbennig ar gyfer uwch-reolwyr a benodwyd gydag amod i ddysgu Cymraeg. Drwy gydol y flwyddyn bu prif diwtor Cymraeg yr Ysgol Dysgu Gydol yn cynnal dosbarth Cymraeg penodol ar gyfer pedair o uwch-reolwyr y brifysgol. (Er gwybodaeth, y mae tabl 4 isod yn dangos beth yw dosbarthiad ieithyddol penaethiaid adrannau o fewn y brifysgol).

Tabl 4 :: Penaethiaid Adrannau

	Siarad Cymraeg		Dim yn gallu siarad Cymraeg		Dysgu siarad Cymraeg		Dim Gwybodaeth	
Penaethiaid Adrannau	24	34%	25	35%	18	25%	4	6%

4.2 Staff Academaidd

4.2.1 Nid yw canrannau'r siaradwyr Cymraeg mor uchel ar yr ochr academaidd ag ydynt ar yr ochr weinyddol. Wedi dweud hynny, y mae canran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na thraean y rhai a ymatebodd ym mhob un o'r categorïau academaidd ac eithrio staff ymchwil. Yn y maes hwnnw, y duedd yw penodi ar gontractau tymor byr, a chan fod yr Ymarfer Asesiad Ymchwil mor allweddol i barhad, enw da a sicrwydd cyllidol gwahanol Ganolfannau Adnoddau, nid yw'r Gymraeg yn ystyriaeth yn achos y mwyafrif llethol o'r swyddi hyn.

4.2.2 Yng ngoleuni'r pryder a fynegwyd yn adroddiad y llynedd ynghylch y gostyngiad a welwyd yn 2005/6 yn niferoedd y staff sy'n darlithio drwy'r Gymraeg, y mae'n galonogol nodi yn yr adroddiad hwn fod ymdrechion Adnoddau Dynol i ddiweddaru'r data yn rhoi gwedd fwy cadarnhaol ar bethau eleni gyda 73 yn nodi eu bod yn weithredol 'yn dysgu drwy'r Gymraeg' a chynifer â 116 yn nodi eu gallu i wneud hynny. Y mae'r ystadegau diweddaraf hyn yn cyfateb yn well i'r gwaith mapio a wnaed gan Ganolfan Bedwyr yn 2006 a ddangosodd fod 78 aelod o staff llawn-amser yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â 43 aelod o staff rhan-amser.

4.2.3 Wrth hoelio sylw penodol ar y data o ran penodiadau academaidd yn ystod 2006/7 (gw. tabl 5 isod), y mae'n deg nodi bod y canran o 31% o siaradwyr Cymraeg ymhlith staff academaidd yn is o 6% na'r canran cyffredinol ar gyfer staff academaidd. Er ei bod hi'n deg nodi mai tiwtoriaid rhan-amser yw llawer o'r penodiadau isod, y mae nifer ohonynt hefyd yn benodiadau a wnaed yn sgil ymgyrch recriwtio'r brifysgol i sicrhau ysgolheigion rhyngwladol eu statws ar gyfer gwireddu dyheadau ymchwil y brifysgol.

Tabl 5 :: Staff academaidd a benodwyd rhwng Hydref 2006 a Medi 2007

Adran/Ysgol	Siarad Cymraeg	Dim yn siarad Cymraeg	Dysgu Siarad Cymraeg	Gallu darllen Cymraeg	Dim yn gallu darllen Cymraeg	Dysgu darllen Cymraeg	Gallu ysgrifennu Cymraeg	Dim yn gallu ysgrifennu Cymraeg	Dysgu ysgrifennu Cymraeg
Dysgu Gydol Oes	15	7	5	16	7	5	14	7	7
Cymraeg	11			11			11		
Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefydd			2			2			2
Diwydiannau Creadigol	1	1	2	1	2	1	1	2	1
Cyfraith	1		1	1		1	1		1
Cerddoriaeth	3	5	3	3	5	3	3	5	3
Electroneg a Chyfrifiadureg		3			3			3	
Busnes	1	4	1	1	4	1	1	4	1
Gwyddorau Chwaraeon		2			2			2	
Gwyddorau Iechyd		2			2			2	
Gwyddorau Cymdeithas	3	3	2	3	3	2	3	5	
Seicoleg		8	3		8	3		8	3
Gwyddorau Biolegol		2			2			2	
Addysg	1		1	1		1	1		1

Gwyddorau Eigion		1	1		1	1		1	1
Hanes, Hanes Cymru ac Archeoleg	5	7	4	5	7	4	4	7	5
Ieithoedd Modern	2	8	1	2	9		1	9	
Saesneg		5	3		6	2		6	2
Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol		2			2			2	
Ieithyddiaeth		6	1	1	6			6	
ELCOS		2	2		3	1		4	
Gwasanaethau TG	2	1	1	2	1	1	2	1	1
Cyfanswm	**45**	**69**	**33**	**47**	**73**	**28**	**42**	**76**	**28**

4.2.4 Ar nodyn cadarnhaol, unwaith eto yn 2006/7, fe fu'r brifysgol yn llwyddiannus mewn perthynas â'i cheisiadau am gymrodoriaethau o dan nawdd CCAUC trwy Gynllun Cymrodoriaethau'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg. Trwy'r cynllun, llwyddwyd i sicrhau gwasanaeth dau academydd ifanc ym meysydd Gwyddorau'r Amgylchedd a Gwyddorau Iechyd. Fel y gwelir yn adran 5 o'r adroddiad hwn y mae ffrwyth ymdrechion y cymrodyr a ddenwyd i'r brifysgol drwy'r cynllun yn dechrau cael ei amlygu yn niferoedd CALl y brifysgol. Yn unol â gofynion y cynllun, bydd y cymrodyr yn dysgu am o leiaf bum awr yr wythnos drwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd yn gyfrifol am ddatblygu darpariaeth newydd. Ar derfyn cyfnod y gymrodoriaeth, mae disgwyl i'r brifysgol greu swydd ddarlithio y bydd modd i ddeiliad y gymrodoriaeth ymgeisio amdani gyda dysgu drwy gyfrwng Gymraeg yn un o brif ddyletswyddau'r swydd.

4.2.5 Llwyddwyd hefyd i gyflwyno tri chais llwyddiannus am ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg o dan nawdd Cynllun Ysgoloriaethau Ôl-raddedig y Ganolfan, a'r rheiny ym meysydd Hanes, Seicoleg ac Ieithoedd Modern. Yn unol ag amodau'r cynllun, bydd deiliaid yr ysgoloriaethau yn astudio am radd doethur dros gyfnod o dair neu bedair blynedd a hefyd yn cael eu cyllido am flwyddyn ychwanegol fel cymrodyr dysgu. Ar derfyn y cyfnod, bydd disgwyl i'r brifysgol greu swydd ddarlithio y bydd modd i ddeiliad yr ysgoloriaethau ymgeisio amdani gyda dysgu drwy gyfrwng Gymraeg eto yn un o brif ddyletswyddau'r swydd.

4.2.6 Mae'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y cyfeiriwyd ati yn 4.1.4 yr un mor berthnasol a dilys yn achos staff academaidd ag ydyw yn achos y staff gweinyddol. Yn ystod 2006/7, manteisiodd nifer dda o staff academaidd ar y ddarpariaeth honno.

4.3 Sylwadau pellach

4.3.1 Rhoddwyd sylw mewn adroddiadau blaenorol i waith arloesol y tîm dwyieithog o fewn y gwasanaeth Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol am ddarparu rhaglen lawn o gyrsiau a gweithdai datblygiad staff ar gyfer anghenion mewnol y brifysgol.

4.3.2 Yn ystod 2006/07 gwelwyd y tîm Datblygu Staff yn cymryd camau pellach i ddatblygu darpariaeth hyfforddiant staff trwy gyfrwng y Gymraeg. Ymhlith y cyrsiau a gyflwynwyd yn gyfan gwbl trwy'r Gymraeg yr oedd cwrs 'Arolygu Perfformiad' sy'n rhan o amserlen hyfforddi cyffredinol y brifysgol. Yn ystod y flwyddyn hefyd, darparwyd gweithdai wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer gwahanol dimau ac adrannau, gyda rhannau ohonynt yn cael eu cyflwyno trwy'r Gymraeg yn ôl y gofyn. Fel rhan o'r un broses hefyd bu'r tîm Datblygu Staff yn cynnig y sgwrs 'dadansoddi anghenion hyfforddi' yn newis iaith yr aelod staff yn ogystal ag unrhyw hyfforddiant un-i-un a oedd yn deillio o hynny.

4.3.3 Fel rhan o'r ddarpariaeth hyfforddiant i reolwyr, trefnwyd gweithdai byrion dros ginio. Ymhlith y gweithdai a ddarparwyd trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn yr oedd 'Cyfathrebu'n Effeithiol' a 'Datblygu Timau'. Yn ogystal â'r gweithdai hyfforddiant hyn trefnwyd cyfres o sesiynau briffio i reolwyr er mwyn diweddaru gwybodaeth rheolwyr ynglŷn â materion strategol a chyfreithiol perthnasol. Cynhaliwyd un o'r sesiynau yma trwy gyfrwng y Gymraeg.

4.3.4 Er mwyn cefnogi'r broses gynefino a sicrhau bod gwybodaeth greiddiol am y brifysgol a'i gweithgareddau ar gael i staff, aethpwyd ati yn ystod y flwyddyn i ailwampio'r broses gynefino a datblygu llawlyfr staff cynhwysfawr ar gyfer y we. Y mae'r ddau sesiwn cynefino, sef y cynefino cyffredinol misol a'r cynefino corfforaethol (a gynhelir ddwywaith y flwyddyn) yn cynnwys cyflwyniadau Cymraeg ac mae'r Llawlyfr staff hefyd ar gael yn ddwyieithog.

Adran 5 :: Darpariaeth Academaidd

5.1.1 Yn ystod y flwyddyn 2006/7 roedd 53.25% o'r myfyrwyr a gofrestrwyd yn dod o Gymru, 34.77 o Loegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon, 4.57% o wledydd eraill o fewn y Gymuned Ewropeaidd a 7.41% o wledydd tramor y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd. Er nad yw'n bosib rhagweld union effeithiau'r cynllun ffioedd sy'n bodoli ar gyfer cyrsiau israddedig yng Nghymru, y mae'n debygol y bydd y cynnydd a welwyd yng nghanran y myfyrwyr o Gymru (0.35% yn 2006/7 a 1.1% yn 2005/6) yn parhau dros y blynyddoedd nesaf.

5.1.2 Mae tabl 5 yn manylu ar y cwestiynau a ofynnir am y Gymraeg wrth i'r myfyrwyr gofrestru'n flynyddol. Y mae ffurf y data yn y tabl yn adlewyrchu gofynion HESA. Yn sylfaenol, y mae'r ddau gategori 'Gohebiaeth Gymraeg' a 'Siarad Cymraeg' a gofnodir ar system Bangor wedi eu cyfuno i gyfateb i gategori HESA 'Siaradwr Cymraeg Rhugl'. Yn yr un modd, y mae'r categori 'Dysgwr Cymraeg' ar system Bangor yn cynrychioli'r hyn y mae HESA yn cyfeirio ato fel 'Siaradwr Cymraeg heb fod yn rhugl'.

5.1.3 O dan y drefn hon, fe welir bod y cyfanswm sy'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr yn 2830, o'i gymharu â chyfanswm cyfatebol o 2726 yn 2005/6. Y mae'r patrwm o gynnydd a nodwyd yn y ddau adroddiad diwethaf yn parhau eleni eto felly. O fewn y cynnydd o 104 a welwyd yn 2006/7 y mae'n werth nodi bod 95 wedi'u cofrestru fel dysgwyr. Yn wir, y mae cynifer â 920 o fyfyrwyr y brifysgol yn cyfrif eu hunain yn ddysgwyr. Er bod nifer mor sylweddol yn galonogol, y mae'n deg nodi nad oes modd mesur am ba hyd y buont yn dysgu nac i ba lefel y bu'r dysgu hwnnw. Y mae'r nifer sylweddol o ddysgwyr hefyd yn cynnig her i ysgolion academaidd wrth iddynt ystyried sut i gynyddu'r niferoedd sy'n dewis ymgymryd â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Tabl 6: Manylion Myfyrwyr :: Siaradwyr Cymraeg a Dysgwyr

Statws Iaith Gymraeg	Israddedigion				Uwchraddedigion		Holl Lefelau
	Blwyddyn / Lefel 1	Blwyddyn / Lefel 2	Blwyddyn / Lefel 3	Blwyddyn / Lefel 4 ac uwch	Hyfforddedig	Ymchwil	
Siarad Cymraeg yn rhugl	**745** (911)*	**473** (359)	**375** (299)	**10** (8)	**243** (265)	**64** (59)	**1910** (1901)
Siarad Cymraeg – ond heb fod yn rhugl	**368** (332)	**195** (175)	**217** (200)	**4** (2)	**105** (91)	**31** (25)	**920** (825)
Cyfanswm	**1113** (1243)	**668** (534)	**592** (499)	**14** (10)	**348** (356)	**95** (84)	**2830** (2726)

* Mae'r ffigyrau rhwng cromfachau yn cynrychioli'r niferoedd cyfatebol yn 2005/6

Allwedd

Siarad Cymraeg yn rhugl — Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys y myfyrwyr a ofynnodd am gael pob gohebiaeth ganolog yn Gymraeg yn ogystal â'r rhai a nododd eu bod yn siarad Cymraeg. O blith y 1901 o fyfyrwyr a gofnodwyd fel siaradwyr Cymraeg rhugl, yr oedd 698 yn awyddus i dderbyn gohebiaeth Gymraeg.

Siarad Cymraeg – ond heb fod yn rhugl — Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys y myfyriwr a diciodd y blwch i nodi eu bod yn dysgu Cymraeg, er nad oes modd mesur i ba lefel.

Nodiadau

Wrth gofrestru, y mae pob myfyriwr yn ticio un o bedwar bocs, 'Angen Gohebiaeth Gymraeg', 'Siarad Cymraeg', 'Dysgu Cymraeg' neu 'Dim yn siarad Cymraeg'.

5.2 Marchnata

5.2.1 Mae'r Uned Recriwtio Myfyrwyr, drwy ei gwaith marchnata, cyswllt ysgolion a digwyddiadau fel yr Ysgol Undydd, yn chwarae rhan ragweithiol er mwyn tynnu sylw at y cyfle i astudio trwy'r Gymraeg cyn i'r myfyrwyr gyrraedd neu wneud cais. Am yr ail flwyddyn yn olynol, mewn ymdrech benodol i hybu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhlith glas fyfyrwyr ac mewn cydweithrediad â'r Ysgol Astudiaethau Trwy'r Gymraeg, dosbarthwyd llawlyfr yn rhestru'r dewis o fodiwlau cyfrwng Cymraeg a gynigir yn y flwyddyn gyntaf.

5.2.2 Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym Mangor yn cael ei marchnata drwy gyfrwng prosbectws blynyddol yn y Gymraeg (sy'n rhoi blaenoriaeth i'r cyrsiau cyfrwng Cymraeg) a deunydd marchnata sy'n cynnwys taflen benodol yn y Gymraeg ar gyfer pob ysgol lle cynigir darpariaeth Gymraeg. Yn ogystal, mae taflen wedi'i chynhyrchu ar gyfer disgyblion iau mewn ysgolion gyda'r neges *Astudio Drwy'r Gymraeg: Be Amdani?* Mae'r daflen yn canolbwyntio ar fanteision parhau i astudio trwy'r Gymraeg ar lefel prifysgol, ac yn rhoi pwyslais hefyd ar y cyfleoedd o ran swyddi sy'n agored i'r rhai sy'n meddu ar sgiliau dwyieithog. Mae'r deunydd marchnata sy'n hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddosbarthu'n rheolaidd i ysgolion ledled Cymru, ac mae'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu targedu'n benodol fel rhan o wasanaeth cyswllt ysgolion Bangor.

5.2.3 Mae Swyddog Marchnata a Chyswllt Ysgolion o fewn yr Uned Recriwtio sy'n gweithio'n benodol ar hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r swyddog yn meithrin perthynas ag ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn ymweld â chynifer ohonynt ag sy'n bosib er mwyn rhoi cyngor ar y broses o fynediad i brifysgol yn ogystal â hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Trefnir ymweliadau gan banel o fyfyrwyr â sawl ysgol hefyd, i sgwrsio â disgyblion Chweched Dosbarth am addysg uwch a'r cyfleoedd cyfrwng Cymraeg a gynigir ym Mangor, yn academaidd a chymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a manteision astudio trwy'r Gymraeg hefyd yn cael eu pwysleisio mewn digwyddiadau megis yr Ysgol Undydd Cyfrwng Cymraeg, a drefnir yn flynyddol ar gyfer Disgyblion Blwyddyn 13; yn arddangosfeydd y brifysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (Caerfyrddin, Mai 2007) a'r Eisteddfod Genedlaethol (Yr Wyddgrug 2007); ac mewn cyfarfod arbennig i'r Cymry Cymraeg sy'n dewis dod i brif Ddiwrnod Agored y brifysgol.

5.2.4 Yn ystod 2006/7 bu'n rhaid cynllunio a darparu gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr am y newidiadau yn nhrefn cyllido myfyrwyr yng Nghymru o Fedi 2007 ymlaen. Yn y cyd-destun hwn, penderfynodd y brifysgol gyflwyno cynllun newydd o fwrsariaethau ar gyfer myfyrwyr, gan gynnwys bwrsariaethau newydd i'r rheini sy'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg (sef £500 y flwyddyn i'r rhai sy'n dewis astudio'r cyfan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg a £250 y flwyddyn i'r rhai sy'n astudio rhan o'u cwrs drwy'r Gymraeg). Darparwyd taflen *Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau ar gyfer Myfyrwyr sy'n cychwyn yn 2007* a bu'r daflen yn cael ei dosbarthu i ysgolion, darpar fyfyrwyr ac ymgeiswyr o Hydref 2006 ymlaen.

5.2.5 O ran ysgoloriaethau, bu'r Uned Recriwtio Myfyrwyr hefyd yn weithredol yn ystod y flwyddyn dan sylw yn hybu cynllun ysgoloriaethau newydd a ddatblygwyd ar y cyd rhwng yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithas a Heddlu

Gogledd Cymru. O dan y cynllun, cynigir pedair ysgoloriaeth (gwerth £1000 yr un) ar gyfer myfyrwyr sy'n dewis astudio Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol (fel gradd sengl neu gyfun) trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyfarnwyd yr ysgoloriaethau cyntaf ym mis Medi 2007.

5.2.6 Mae'r Uned Recriwtio Myfyrwyr hefyd yn trefnu presenoldeb Bangor yn y ffeiriau addysg uwch blynyddol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 12 a drefnir gyda chefnogaeth UCAS yn Llandudno, Wrecsam, Caerfyrddin a Chaerdydd, yn ogystal â mynychu cynadleddau gyrfaoedd a drefnir gan gwmnïau gyrfaoedd mewn ysgolion unigol, lle mae cyfle i gwrdd â disgyblion iau a'u rhieni.

5.2.6 Mae cyrsiau newydd sy'n ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael eu hysbysebu yn flynyddol mewn cyhoeddiadau megis *Golwg*. Mae'r datblygiadau diweddaraf o fewn y brifysgol ynghyd â'i chryfderau o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael eu pwysleisio'n benodol mewn atodiad lliw i'r cylchgrawn bob Hydref o dan y teitl 'Bwletin Bangor. Ymhlith nifer fawr o eitemau yn rhifyn Hydref 2006 o'r atodiad, rhoddwyd sylw i ddatblygiad modiwlau newydd ym maes yr Amgylchedd a Cherddoriaeth ynghyd ag Ysgoloriaethau Heddlu Gogledd Cymru. Mae 'Bwletin Bangor' ynghyd â'r deunydd marchnata cyfrwng Cymraeg a gynhyrchir yn ganolog, yn cael eu dosbarthu i'r ysgolion a cholegau chweched dosbarth perthnasol yng Nghymru.

5.2.7 Gyda'r twf ym mhwysigrwydd y we ar gyfer marchnata a recriwtio myfyrwyr, y mae gwaith y Tîm Gwe (a sefydlwyd ym mis Mawrth 2005 ac y cyfeiriwyd ato yn adroddiad y llynedd) yn allweddol i'r gwaith marchnata. Mae'r wybodaeth ar wefan y brifysgol sydd ar gael yn y Gymraeg ar gyfer darpar-fyfyrwyr yn parhau i gynyddu, gyda'r pwyslais ar greu copi Cymraeg newydd yn hytrach na chyfieithu o'r Saesneg. Yn ystod 2006/07 cynhyrchwyd deunydd o'r newydd yn Gymraeg ar gyfer y safleoedd i ddarpar fyfyrwyr megis 'Astudio ym Mangor' a 'Bywyd Myfyrwyr'. Bu hefyd cryn gydweithio gyda'r ysgolion academaidd er mwyn sicrhau bod yr haenen uchaf o wybodaeth ar bob gwefan adrannol ar gael yn ddwyieithog. Dechreuwyd ar y gwaith hefyd o greu deunydd fideo cyfrwng Cymraeg i'w ddefnyddio ar y wefan.

5.3 Cwricwlwm cyfrwng Cymraeg/dwyieithog

5.3.1 Mae meysydd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn parhau i bob pwrpas ar yr un patrwm â'r llynedd. O fewn y meysydd hynny, fodd bynnag, y mae rhai datblygiadau newydd i'w nodi, gyda nifer ohonynt yn ffrwyth ymdrechion rhai o'r cymrodyr a deiliaid ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg a ddenwyd i Fangor trwy gynlluniau'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg:

- Nifer o fodiwlau cyfrwng Cymraeg newydd yn yr Ysgol Cerddoriaeth ym meysydd Technoleg Cerdd a Cherddoriaeth ar gyfer Ffilm a'r Cyfryngau
- Atgyfodi modiwlau cyfrwng Cymraeg ar 'Ddefnydd Tir yng Nghymru' yn Ysgol yr Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol
- Nifer o fodiwlau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog newydd yn yr Ysgol Gwyddorau Biolegol ym meysydd Ffisioleg Ddynol, Biofeddygaeth a Biocemeg

- Modiwl Cymraeg newydd 'Astudiaethau Cyfoes mewn Dwyieithrwydd' yn yr Ysgol Seicoleg
- Modiwlau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog newydd ar gyfer y cwrs BSc Dylunio Cynnyrch yn yr Ysgol Addysg

5.3.2 Fel y dangosir yn y tabl isod, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr (C.A.Ll) a fanteisiodd ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod 2006/7. Gyda 1378 o fyfyrwyr yn dewis gwneud o leiaf gyfran o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg, y mae'r C.A.Ll ar gyfer 2006/7 yn 620.1, sef cynnydd o 20.3% ar ffigwr 2005/6.

Tabl 6: Baich dysgu Cyfwerth Amser Llawn (C.A.Ll.) cyfrwng Cymraeg

Blwyddyn academaidd	C.A.Ll. cyfrwng Cymraeg
2006/7	620.10
2005/6	515.47
2004/5	491.07
2003/4	514.18
2002/3	511.96
2001/2	513.43
2000/1	567.43

Gellir priodoli'r cynnydd sylweddol hwn yn rhannol i'r ffaith fod y Swyddfa Cynllunio ac Adnoddau ar y cyd â swyddogion yr Ysgol Gwyddorau Iechyd wedi gallu rhoi cyfrif llawn o'r ddarpariaeth ym maes Iechyd (Nyrsio yn arbennig) am y tro cyntaf. Y mae'n deg ychwanegu, serch hynny, fod y cynnydd hefyd yn adlewyrchu'r datblygiadau calonogol a wnaed mewn sawl maes i ehangu a hyrwyddo'r ddarpariaeth. Ymhlith yr ysgolion sy'n dangos twf arwyddocaol y mae'r ysgolion Gwyddorau Cymdeithas, Cerddoriaeth ac Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol. Y mae'n werth nodi yn y cyswllt hwn fod pob un o'r ysgolion hyn wedi manteisio ar gynllun cymrodoriaethau cyfrwng Cymraeg CCAUC. Calonogol hefyd yw gweld ysgolion academaidd fel Cemeg a Pheirianneg Electronig yn cofnodi CALlau cyfrwng Cymraeg am y tro cyntaf yn eu hanes.

5.3.3 Y mae cynllun strategol y brifysgol ar gyfer 2005/10 'Cynaladwyedd trwy Ragoriaeth' wedi pennu meysydd twf penodol o ran ymestyn a meithrin y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddisgyblaethau sy'n denu nifer fawr o fyfyrwyr a lle mae'r iaith Gymraeg nid yn unig yn bwysig yn ddiwylliannol, ond hefyd yn sgil galwedigaethol allweddol i weithwyr proffesiynol yng Nghymru. Ymhlith y meysydd hyn y mae'r Gyfraith, y Diwydiannau Creadigol a llawer o ddisgyblaethau ym maes Iechyd a'r Amgylchedd. Y mae nifer o'r meysydd hynny yn cyfateb i'r meysydd y penderfynodd y Grŵp Sector Cyfrwng Cymraeg eu blaenoriaethu yn eu trafodaethau ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw. Y mae disgwyl i Fangor felly chwarae rhan flaenllaw yn y datblygiadau yn y meysydd hyn dros y blynyddoedd nesaf.

5.3.4 Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd bwriad y brifysgol i sefydlu canolfan newydd gwerth £5m i astudio dwyieithrwydd. Bydd y ganolfan yn dwyn ynghyd academyddion o'r Ysgol Ieithyddiaeth, yr Ysgol Seicoleg a'r Ysgol Addysg er mwyn ymchwilio i'r berthynas rhwng dwy iaith siaradwyr dwyieithog mewn cymunedau dwyieithog o fewn y DU ac yn rhyngwladol. Â'r ganolfan wedi'i lleoli mewn ardal ddwyieithog, y mae mewn sefyllfa ddelfrydol i sicrhau bod Cymru'n parhau i arloesi a gwella polisi ac ymarfer dwyieithog.

5.4 Strwythurau sy'n cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog

5.4.1 Y mae Canolfan Bedwyr yn parhau i fod yn gonglfaen i'r gefnogaeth yn gyffredinol. Yn ychwanegol at y gwasanaeth cyfieithu y mae'n ei gynnig, bydd adrannau gwasanaeth ac ysgolion academaidd hefyd yn troi ati'n gyson am gymorth a chyngor amrywiol ar faterion polisi, materion ieithyddol a thechnolegol. Y mae'r ganolfan hefyd yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer ymwneud y sefydliad â holl weithgareddau'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg.

5.4.2 O ran y drefn bwyllgorau ar yr ochr academaidd y mae TASIG yn adrodd yn uniongyrchol i Bwyllgor Gweithredu'r brifysgol. Mae'r Ysgol Astudiaethau trwy'r Gymraeg hithau yn bwydo ei thrafodaethau i TASIG. Mae Cadeirydd TASIG, fel Dirprwy Is-Ganghellor, yn aelod o Bwyllgor Gweithredu'r brifysgol. Rhan greiddiol o'r fframwaith yw'r rhwydwaith o Gyd-gysylltwyr Cynllun Iaith, gydag un ar gyfer pob ysgol academaidd.

5.4.3 Yn ychwanegol at y pwyllgorau/grwpiau hyn sy'n ymwneud yn uniongyrchol gyda'r Gymraeg ar yr ochr academaidd, y mae disgwyl i bob grŵp tasg o fewn y strwythur gweinyddol newydd roi sylw dyledus i'r Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o bwysig o fewn grwpiau megis y Grŵp Tasg Dysgu ac Addysgu a'r Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu.

5.4.4 Fel rhan o'r drefn sicrhau ansawdd o fewn y brifysgol, y mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn elfen y disgwylir i bob ysgol academaidd roi sylw dyladwy iddi yn y ffurflenni arolwg blynyddol (QA1) y mae gofyn iddynt eu llenwi ar gyfer pob cwrs.

5.4.5 Ym mis Awst 2006, ar drothwy'r cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn, ail-strwythurwyd gweithgareddau academaidd y brifysgol ar ffurf chwe choleg, sef:

- Coleg Celfyddydau a Dyniaethau
- Coleg Busnes, Gwyddorau Cymdeithas a'r Gyfraith
- Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Coleg Gwyddorau Naturiol
- Coleg Iechyd a Gwyddorau Ymddygiad
- Coleg Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol

Er bod y gwaith o ddatblygu eu strwythurau gweinyddol a gweithredol wedi parhau trwy gydol 2006/7, mewn sawl achos (e.e. Coleg Gwyddorau Naturiol) dechreuwyd manteisio ar y cyfle i edrych yn fwy strategol ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr ysgolion.

5.5 Adnoddau a deunyddiau cyfrwng Cymraeg

5.5.1 Soniwyd mewn adroddiadau blaenorol am y gwaith o ddefnyddio technoleg i atgyfnerthu ac ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo o nerth i nerth, ac yn ystod 2006/7, cafwyd sawl datblygiad arwyddocaol.

Bu cynnydd sylweddol yn y nifer o safleoedd cyfrwng Cymraeg ar y system *Blackboard* yn ystod y flwyddyn gyda dros 220 o safleoedd Cymraeg neu ddwyieithog yn weithredol. Mae ysgolion academaidd ar draws pump o golegau'r brifysgol yn gwneud defnydd o *Blackboard* i gyflwyno eu modiwlau cyfrwng Cymraeg, a hynny o fewn cyrsiau israddedig yn ogystal ag ôl-raddedig. Mae dosbarthiad y safleoedd *Blackboard* fel a ganlyn:

Celfyddydau a Dyniaethau
Diwydiannau Creadigol 17
Cymraeg 11
Hanes, Hanes Cymru ac Archeoleg 2
Cerddoriaeth 31
Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol 2

Busnes, Gwyddorau Cymdeithas a'r Gyfraith
Busnes 5
Cyfraith 14
Gwyddorau Cymdeithas 28

Addysg a Dysgu Gydol Oes
Addysg 85
Dysgu Gydol Oes 4

Iechyd a Gwyddorau Ymddygiad
Gwyddorau Gofal Iechyd 4
Seicoleg 6

Gwyddorau Naturiol
Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol 5
Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol (Daearyddiaeth) 5

Gwasanaethau Canolog
Gwasanaethau TG 2
Canolfan Bedwyr 1
Adnoddau Dynol 1
Llyfrgell 1

Defnyddir *Blackboard* i ddarparu nodiadau a deunyddiau darlith, i asesu ar-lein, i gynnal arolygon diwedd modiwl ac i gyfathrebu yn gyffredinol. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd defnydd cynyddol hefyd o ffeiliau fideo.

Gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn y defnydd o'r meddalwedd canfod llên-ladrad *TurnitinUK* i gyflwyno papurau Cymraeg eu hiaith.

Fel y gwelir uchod, nid yw'r defnydd o *Blackboard* wedi'i gyfyngu i ysgolion academaidd. Fe'i defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn gan nifer o'r adrannau gwasanaethau canolog gan gynnwys Adnoddau Dynol i ddarparu hyfforddiant

Datblygu Staff, y Llyfrgell i ddarparu hyfforddiant Llythrennedd Gwybodaeth, Canolfan Bedwyr i gyflwyno cwrs dysgu o bell a Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth i ddarparu hyfforddiant sgiliau Technoleg Gwybodaeth.

Yn ystod 2006/7 cynhaliwyd 14 o weithdai cyfrwng Cymraeg i gynnig cefnogaeth i'r aelodau hynny o staff a oedd yn dymuno darparu modiwlau Cymraeg neu ddwyieithog trwy *Blackboard*.

Y datblygiad mwyaf arwyddocaol yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, fu lansio'r fersiwn Gymraeg o'r meddalwedd *Blackboard*. Yn dilyn y cydweithio a fu rhwng Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth a Chanolfan Bedwyr lansiwyd y pecyn iaith ym Mangor ym mis Mehefin 2007. Cynhaliwyd digwyddiad pellach yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2007 i hyrwyddo'r datblygiad yn genedlaethol. Dosbarthwyd y pecyn iaith i holl sefydliadau Addysg Uwch Cymru ac mae Prifysgol Aberystwyth, Abertawe, Morgannwg ac Athrofa Gogledd Cymru bellach yn defnyddio'r fersiwn Gymraeg.

Mae'r Swyddog Project e-ddysgu Cyfrwng Cymraeg yn aelod o TASIG ac felly'n sicrhau fod e-ddysgu a dulliau addysgu cyfunol bob amser yn cael ystyriaeth lawn yn nhrafodaethau'r grŵp.

5.5.2 Bu'r Ysgol Cemeg yn flaengar eto eleni o ran ei chysylltiadau gydag ysgolion. Fel rhan o'r gwaith hwnnw datblygwyd deunyddiau dysgu dwyieithog ar CD a chynhaliwyd digwyddiadau fel 'Cyfrinachau Cemegol' mewn cydweithrediad â Techniquest a Phrifysgol Caerdydd.

Er mwyn hybu Cemeg i ddisgyblion, athrawon, rhieni a busnesau, y mae Dr Robyn Williams wedi'i gyflogi (trwy RSC) am ddiwrnod yr wythnos i bontio'r bwlch rhwng yr ysgol a'r brifysgol. Mae Dr Williams yn hyrwyddo Cemeg mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys y 'Sioe Cemeg' boblogaidd. Unwaith eto, y mae pwyslais ar sicrhau bod y gweithgarwch hwn yn ddwyieithog.

5.6 Enghreifftiau o gydweithio er mwyn cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog

5.6.1 Yn ystod y flwyddyn, bu Prifysgol Bangor yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o sefydlu Grŵp Sector Cyfrwng Cymraeg o dan nawdd Addysg Uwch Cymru i weithredu fel corff cynllunio cenedlaethol ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y prifysgolion. Y mae'r Dirprwy Is-Ganghellor Cyfrwng Cymraeg ac Ehangu Cyfranogaeth yn cynrychioli'r brifysgol ar y grŵp.

Y mae'r Grŵp Sector hwn bellach yn gyfrifol am oruchwylio gweithgarwch y paneli rhwydwaith (y paneli maes gynt), ac mae unigolion o blith staff academaidd y brifysgol yn parhau i chwarae rhan flaenllaw yn y cydweithio sy'n digwydd trwy'r paneli hyn. O'r pum panel a fu'n weithredol yn ystod 2006/7, sef y paneli Addysg a Hyfforddiant, Y Gyfraith, Y Cyfryngau Creadigol, Daearyddiaeth a'r Amgylchedd, Iechyd a Dysgu Gydol Oes, yr oedd gan Fangor gynrychiolaeth ar bob un ohonynt. Yn achos y paneli Addysg a Hyfforddiant a Daearyddiaeth a'r Amgylchedd, aelodau o staff Prifysgol Bangor fu'n eu cadeirio yn ystod y flwyddyn dan sylw.

5.6.2 Tra bo trafodaethau cenedlaethol ynghylch cydweithredu rhwng sefydliadau wedi hawlio cryn sylw yn ystod y flwyddyn, y mae sawl enghraifft o gydweithredu yn parhau i ddigwydd yn naturiol rhwng ysgolion academaidd ac adrannau gwasanaeth ym Mangor ac ysgolion ac adrannau mewn sefydliadau eraill. Nodir isod ambell enghraifft:

- Fel y nodwyd yn 5.5.1 uchod, y mae Gwasanaethau Technoleg wedi rhannu'r pecyn iaith Cymraeg a ddatblygwyd ym Mangor gyda'r holl sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n defnyddio *Blackboard*, a hynny'n rhad ac am ddim.

- Mae Canolfan Bedwyr yn cydweithio'n agos ag Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd i gyflwyno'r Cynllun Sabothol i athrawon.

- Mae'r Adain Daearyddiaeth o fewn Ysgol yr Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol yn parhau i gydweithio gydag adrannau cyffelyb ym mhrifysgolion Aberystwyth ac Abertawe i gyflwyno modiwl 'Methodoleg Maes' sy'n agored i fyfyrwyr y tri sefydliad. Mae'r model o gydweithio a fabwysiadwyd ar gyfer y cynllun hwn yn un blaengar, yn arbennig o ran y modd y cyflwynir y modiwl ar ffurf penwythnosau preswyl.

5.6.3 Mae'r Ysgol Dysgu Gydol Oes yn enghraifft o ysgol academaidd sydd o reidrwydd yn cydweithio'n agos â nifer o gyrff allanol eraill (yn ogystal ag adrannau mewnol) i ddatblygu cyrsiau, adnoddau a chyfleoedd addysgu. Gwêl yr Ysgol werth mawr mewn cyfleoedd dysgu anffurfiol er mwyn denu pobl yn ôl at addysg a bu ffynonellau cyllid EQUAL yn gymorth mawr i wireddu hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal â chynnal ei gweithgareddau cyfrwng Cymraeg arferol, ymhlith y datblygiadau newydd a welwyd yn ystod 2006/7 gellir nodi:

Cwrs 'Ieithoedd i Rieni' ar gyfer rhieni ysgolion cynradd ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Yn dilyn cais gan rai ysgolion dechreuwyd paratoi cwrs newydd arloesol a fydd yn cael ei gynnal yn ystod 2007/08. Y nod yw cyflwyno iaith dramor fodern trwy gyfrwng y Gymraeg mewn cwrs peilot o 5 sesiwn mewn gwahanol ysgolion, a hynny drwy ddysgu rhieni a phlant ysgol gynradd gyda'i gilydd yn y dosbarth.

Fersiwn Cymraeg o'r modiwl 'An Introduction to the History and Culture of Wales', sef 'Cymru Ddoe a Heddiw' ar gyfer dysgwyr Cymraeg rhugl.

Cynhaliwyd dwy Ysgol Undydd lewyrchus iawn ym Melin Brwcws ger Dinbych gyda thros 60 o bobl o bell ac agos yn eu mynychu. Canolbwyntiodd un ar agweddau ar yr Ail Ryfel Byd a'r llall ar Eisteddfodau Cofiadwy Clwyd.

O dan nawdd y prosiect ymchwil GWLAD, ymgymerwyd â'r gwaith canlynol:

- Cydweithiwyd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyrsiau i fewnfudwyr i Ogledd Cymru a chafodd cyrsiau eu cynnal mewn nifer o gymunedau ar draws yr ardal.
- Darparwyd cwrs dysgu Cymraeg mewn amgylchiadau anffurfiol i famau a'u plant bach, gyda'r grŵp yn symud ymlaen i gwrs Wlpan.
- Cymry'r Ucheldir yng Nghapel Curig: anelwyd at ddynion yn y byd amaethyddol yn bennaf gan gynnig profiadau dysgu anffurfiol trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Cwrs busnes ar gyfer merched yn rhedeg micro fusnesau.
- Cwrs ffilmio a golygu digidol ar gyfer pobl ifanc.

Yn ogystal â'r datblygiadau uchod, llwyddodd yr ysgol i adeiladu ar lawer o'r gwaith a nodwyd yn adroddiad y llynedd gan gydweithio'n agos â thîm Ymestyn yn Uwch, Ymestyn yn Ehangach. Gan fod gwaith GWLAD wedi dod i ben am y tro, y mae'r Ysgol wedi penodi aelod o staff a fydd yn canolbwyntio ar hybu cyrsiau'r Ysgol ar draws Gogledd Cymru ac ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn benodol dros y misoedd nesaf.

5.6.3 Enghraifft arall o gydweithio ar raddfa genedlaethol y cyfeiriwyd ato yn adroddiad 2005/6 oedd y gwaith o sefydlu LLAIS (www.llais.org) gan Fiona Irvine a Gwerfyl Roberts o'r Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd. Cenhadaeth LLAIS yn gyffredinol ydy sicrhau bod ymchwil mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cymryd natur ddwyieithog Cymru a'i siaradwyr i ystyriaeth yn llawn a gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i siaradwyr y Gymraeg yng Nghymru. Ym mis Mawrth 2007, derbyniodd y grŵp gyllid ychwanegol i ddatblygu ei bortffolio ymchwil. Gyda'r cyllid hwn galluogwyd y grŵp i ddenu mwy o staff a mentro ar sefydlu dau Grŵp Datblygu Ymchwil newydd. Mae un ohonynt, sef Mesur Iechyd Cymru, yn ymateb i alwad gref ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru am gyfieithu a dilysu mesuriadau clinigol ac ymchwil ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae'n dod ac arbenigwyr o sawl maes at ei gilydd er mwyn dilyn trefn systematig ar gyfer cyfieithu mesuriadau ac yna hwyluso'r gwaith dilysu drwy gydweithio ag ymchwilwyr a chlinigwyr yn y meysydd priodol.

5.6.4 Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2006/7 daeth peilot dwy flynedd y Cynllun Sabothol Cenedlaethol y bu Canolfan Bedwyr yn ei gynnal ar ran APADGOS ac Adran Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru i ben. Oherwydd llwyddiant y Cynllun, ac yn dilyn adroddiad cadarnhaol iawn gan ymgynghorwyr allanol, ymestynnwyd y cynllun peilot am ddwy flynedd ychwanegol. Bydd y peilot yn parhau felly gyda charfan newydd o ymarferwyr bob tymor hyd at Orffennaf 2009.

5.7 Cefnogaeth / anogaeth ieithyddol

5.7.1 Mae gan Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor gymdeithas arbennig ar gyfer y rhai sy'n dysgu Cymraeg, sef Cymdeithas Llywelyn. Ymhlith prif swyddogaethau'r gymdeithas y mae:

- annog dysgu Cymraeg
- darparu cyfleoedd i ymarfer y Gymraeg
- rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr am wersi sydd ar gael yn yr ardal
- trefnu digwyddiadau cymdeithasol i ddysgwyr
- annog dysgwyr i fynychu digwyddiadau UMCB
- benthyg llyfrau a rhannu adnoddau defnyddiol i ddysgwyr
- ceisio defnyddio aelodau rhugl UMCB i helpu dysgwyr
- cynyddu ymwybyddiaeth myfyrwyr o'r modiwlau Cymraeg hynny sydd ar gael iddynt.

5.7.2 Diolch i ymroddiad nifer fach o aelodau staff, y mae cangen CYD y brifysgol yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd a chynnal amrywiaeth o weithgareddau. Ymhlith y gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod 2006/7 yr oedd taith gerdded i Ynys Llanddwyn, ymweliadau â Theatr Gwynedd a Galeri

Caernarfon yn ogystal â chyfarfodydd cyson y Clwb Darllen. Un datblygiad newydd yn ystod y flwyddyn oedd sefydlu blog ar gyfer y gangen. Mae'r blog hwnnw (http://cydpcb.wordpress.com) yn fodd ymarferol o hysbysebu gweithgareddau'r gangen ymhlith ei haelodau.

5.7.3 Mae'r Ysgol Dysgu Gydol Oes yn parhau i ddarparu modiwlau Cymraeg ail-iaith ar ddwy lefel i fyfyrwyr y brifysgol. Dewisodd 68 o fyfyrwyr ddilyn y modiwlau hyn yn ystod 2006/7, sef cynnydd o 100% ar niferoedd 2005/6. Mae modd i fyfyrwyr ôl-radd wneud cwrs Cymraeg fel modiwl Sgiliau Trosglwyddadwy ac yn ystod y flwyddyn dan sylw ymrestrodd 13 myfyriwr ar gyrsiau o dan adain y cynllun hwnnw. Yn ystod y flwyddyn hefyd, bu'r Ysgol yn cynnig cyrsiau byrion yn benodol ar gyfer myfyrwyr yr Ysgol Nyrsio ym Mangor a Wrecsam a'r Adran Radiograffeg yn Wrecsam.

Mae'n werth ychwanegu fod 85 o fyfyrwyr y Brifysgol wedi dewis dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg yn yr Ysgol Dysgu Gydol Oes yn eu hamser eu hunain.

5.7.4 Mae Canolfan Bedwyr yn cynnig cyrsiau ar gyfer cynyddu lefelau hyder a hyfedredd myfyrwyr sydd, naill ai'n Gymry Cymraeg, neu wedi cyrraedd Lefel 4 fel dysgwyr. Cynigir "Gloywi'r Gymraeg" ar Lefel 1, 2 a 3 i fyfyrwyr unrhyw adran ac mae "Defnyddio'r Gymraeg i Bwrpasau Pynciol" ar gael i fyfyrwyr Lefel 2 a 3. Mae modiwl tebyg hefyd ar gael i fyfyrwyr ôl-radd. Modiwlau 10 credyd yw'r cyfan ohonynt. Yn ystod y flwyddyn dan sylw gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y niferoedd a fanteisiodd ar y ddarpariaeth, er gwaethaf y ffaith fod nifer cynifer â 1378 wedi dewis astudio o leiaf gyfran o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Yng ngoleuni hyn ac yn wyneb y ffaith fod ysgolion academaidd yn parhau i fod yn gyndyn i ryddhau eu myfyrwyr i ddilyn modiwlau y tu allan i'w rhaglenni gradd eu hunain, fe fydd ymdrechion penodol yn cael eu gwneud yn 2007/8 i ymgorffori'r ddarpariaeth gloywi iaith o fewn modiwlau sgiliau sydd eisoes yn cael eu cynnig gan ysgolion academaidd.

Ar nodyn calonogol, y mae'n braf adrodd fod y modiwl ar gyfer myfyrwyr ôl-radd 'Ymdrin â'ch Pwnc Drwy'r Gymraeg' wedi'i gyflwyno am y tro cyntaf yn 2006/7. Gyda nifer o ddeiliaid yr ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg yn dangos diddordeb yn y modiwl, y mae pob gobaith y gwelir hwn yn denu niferoedd cynyddol yn y blynyddoedd i ddod.

	2005/6	**2006/7**
CCB1001 – Gloywi'r Gymraeg	*10*	8
CCB2001/3001 – Gloywi'r Gymraeg	*11*	4
CCB2002/3002 – Defnyddio'r Gymraeg i Bwrpasau Pynciol	*12*	3
ZXC4002 – Ymdrin â'ch Pwnc Drwy'r Gymraeg	/	2

5.7.5 Trwy'r Uned Dyslecsia mae strwythur cadarn yn ei le ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a chanddynt anawsterau dysgu. Gellir crynhoi'r ddarpariaeth fel hyn:

- Mae'r uned yn cysylltu'n syth â myfyrwyr sy'n datgan eu bod yn gwybod eu bod yn ddyslecsig (neu'n ddyspracsig / ADHD etc) ar eu ffurflenni UCAS. Trosglwyddir yr wybodaeth honno o'r Adran Derbyniadau a bydd yr unigolion yn cael gwybodaeth yn syth am y math o gefnogaeth a

chynhaliaeth sydd ar gael. Bydd gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei darparu ar gyfer pob darpar fyfyriwr sy'n mynegi dymuniad i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg.

- Mae'r uned yn cynnig cynhaliaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl yr angen. Mae gan yr uned nifer o diwtoriaid rhan-amser sy'n abl i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg gyda myfyrwyr Cymraeg eu hiaith pan fo galw. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys hyfforddiant mewn sgiliau astudio a chefnogaeth gyda gwaith cyfredol (e.e. traethodau yn ogystal â mathemateg). Mae'r uned hefyd yn paratoi cylchlythyr rheolaidd ar gyfer y myfyrwyr dan ei gofal yn ogystal â strategaethau astudio. Mae'r rhain yn cael eu paratoi'n ddwyieithog fel y bo'n briodol.

- Mae modd i staff academaidd gyfeirio unrhyw fyfyriwr sy'n astudio ar unrhyw gwrs at yr Uned Dyslecsia, neu gallant eu cyfeirio eu hunain os oes unrhyw awgrym eu bod yn cael anawsterau dyslecsig neu anawsterau tebyg i hynny. Cynigir proses sgrinio anffurfiol sy'n cynnwys profi llythrennedd Cymraeg yn anffurfiol (os yw hynny'n briodol). O ganlyniad i'r broses sgrinio, gall yr uned gynnig cyngor a chynhaliaeth (fel y nodir uchod) i'r myfyriwr, neu gynnig prawf swyddogol dan ofal y Seicolegydd Addysg. Gall y Seicolegydd Addysg presennol, sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer yr asesiad. Ond nid oes modd cynnig profion ffurfiol yn y Gymraeg gan nad ydynt ar gael eto ar gyfer yr oedran hwn. (Mae'r uned yn parhau i fod yn awyddus i fod yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad i'r cyfeiriad hwn petai cyllid ar gael ar gyfer y gwaith.)

- Mae myfyrwyr sydd wedi cael eu hasesu'n ffurfiol fel rhai sydd ag anawsterau dysgu fel rheol yn mynd yn eu blaenau i wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl. Ar gyfer hynny, rhaid iddynt gael eu hasesu am eu gofynion astudio yn y Ganolfan Mynediad ym Mangor. Gall hyn ddigwydd trwy gyfrwng y Gymraeg os yw'n briodol. Gall y math o gynhaliaeth a fydd yn cael ei hargymell gynnwys darparu cyfrifiadur, recordydd digidol, meddalwedd priodol (gan gynnwys meddalwedd Cymraeg fel Cysgliad a.y.b.) yn ogystal â chymorth tiwtorial, rhywun i gymryd nodiadau (yn y Gymraeg eto os yw'n briodol) a hyfforddiant mewn Technoleg Gwybodaeth.

- Yn ystod y flwyddyn dan sylw, yr oedd un myfyriwr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cofrestru ar gyfer derbyn cynhaliaeth diwtorial.

- Mae canllawiau staff ar gyfer cynnal myfyrwyr gydag anawsterau dysgu penodol ar gael yn ddwyieithog o fewn y brifysgol ac fe'u dosbarthwyd i'r holl ysgolion academaidd yn ystod y flwyddyn.

5.7.6 Mae Strategaeth Sgiliau Ieithyddol gadarn yn ei lle ar gyfer staff. Mae'r Ysgol Dysgu Gydol Oes yn paratoi cyrsiau ar bob lefel ar gyfer staff y brifysgol sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith, tra bo Canolfan Bedwyr yn gyfrifol am y ddarpariaeth gloywi iaith. Mae llinell benodol yng nghyllideb y brifysgol ar gyfer ariannu'r ddarpariaeth.

5.7.7 Mae ystod darpariaeth yr Ysgol Dysgu Gydol Oes ar gyfer aelodau o staff y brifysgol yn ymestyn o gyrsiau Wlpan i ddechreuwyr pur hyd at gyrsiau

Meistroli i ddysgwyr cymharol rugl. Yn ystod 2006/7, ymrestrodd cyfanswm o 57 o'r staff ar gyrsiau dysgu Cymraeg ar wahanol lefelau:

Wlpan	17
Canolig	21
Pellach	7
Uwch	7
Meistroli	5

Mynychodd y rhan fwyaf o'r staff y cyrsiau hyn yn ystod amser cinio neu gyda'r nos yn hytrach nag yn ystod oriau gwaith.

Mae'r Ysgol hefyd yn cynnig Ysgolion Calan a Haf, a bu 18 aelod o staff y brifysgol ar y cyrsiau hynny yn ogystal.

Yn ystod y flwyddyn hefyd, trefnwyd Cwrs Wlpan yn benodol ar gyfer uwch-swyddogion y Brifysgol a bu pedwar aelod o staff yn mynychu'r dosbarthiadau'n wythnosol rhwng mis Tachwedd 2006 a mis Gorffennaf 2007.

5.7.8 Canolfan Bedwyr sy'n gyfrifol am y cyrsiau gloywi iaith i staff. Trefnir y ddarpariaeth ar ffurf dosbarthiadau wythnosol a gynhelir yn ystod yr awr ginio ac ar ddiwedd y diwrnod gwaith. Yn ystod 2006/7 manteisiodd 12 aelod o staff ar y ddarpariaeth ac fe'u dysgwyd mewn tri grŵp. Gan fod y nifer hwn yn ostyngiad ar niferoedd blynyddoedd blaenorol, y bwriad yn 2007/8 yw arbrofi gyda'r dull o gyflwyno'r ddarpariaeth, er enghraifft, trwy gynnig cyrsiau undydd dwys ar adegau pan nad yw'r myfyrwyr yn y brifysgol.

5.7.9 Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd nifer cynyddol o staff hefyd yn manteisio ar wasanaeth gwirio a prawf-ddarllen yr Uned Gyfieithu. Mewn datblygiad pwysig o ran normaleiddio pellach ar weinyddiad dwyieithog y sefydliad, mae'r Uned Gyfieithu yn annog cwsmeriaid a chanddynt afael go dda ar Gymraeg ysgrifenedig i roi cynnig ar lunio eu deunyddiau eu hunain gyda'r sicrwydd y bydd gweithwyr yr Uned yn bwrw golwg dros eu gwaith a'i gaboli yn ôl y gofyn. Y mae nifer o'r staff sy'n mynychu dosbarthiadau gloywi Canolfan Bedwyr yn gweld y ddarpariaeth hon fel ymestyniad gwerthfawr o'r sesiynau dysgu.

5.8 Profiad / Lleoliadau Gwaith

5.8.1 Mae cyrsiau'r Ysgol Addysg yn dibynnu'n helaeth ar leoliadau estynedig ac yn llwyddo i sicrhau'r math o leoliadau dwyieithog sy'n addas i'w gofynion:

- Mae'r Ysgol Addysg yn lleoli oddeutu 150 o ddarpar-athrawon cyfrwng Cymraeg y flwyddyn mewn ysgolion cynradd sy'n perthyn i'r Bartneriaeth. Nid oes problemau wrth eu lleoli. (Ar adegau maent yn cael eu lleoli yn fwriadol mewn ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn cael profiad addysgu ail iaith - h.y. am resymau addysgol, nid oherwydd nad oes digon o leoliadau cyfrwng Cymraeg.)
- Mae'r sefyllfa yn wahanol gyda dysgwyr y Gymraeg. Nodwyd mewn adroddiadau blaenorol at yr anawsterau a wynebwyd yn y gorffennol wrth geisio lleoli dysgwyr da (rhai sy'n rhugl yn llafar) mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bellach, y mae'r sefyllfa wedi gwella yn sylweddol, gyda mwy o ysgolion yn fodlon eu derbyn. Hefyd,

mae'r Ysgol Addysg wedi sefydlu Cynllun Cynhaliaeth Ieithyddol sy'n rhoi cymorth i'r myfyrwyr ac i'r mentoriaid yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

- Mae'r sefyllfa yn gwella yn raddol, gyda mwy o ysgolion yn fodlon eu derbyn.
- Lleolir tua 60 o fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn y sector ysgolion uwchradd yn ogystal.
- Mae'r cwrs BA mewn Astudiaethau Plentyndod yn lleoli myfyrwyr mewn meithrinfeydd, swyddfeydd, ayb, cyfrwng Cymraeg. Mae tua deg o fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg ar y cwrs ym mhob blwyddyn ac mae'r cwrs yn dal i ddatblygu. Nid oes problemau gyda lleoliadau Cymraeg a dwyieithog.
- Mae elfen bwysig o brofiad gwaith yn y cyrsiau FdA mewn Astudiaethau Blynyddoedd Cynnar a Chymorth Dosbarth a BSc Dylunio Cynnyrch. Ni cheir unrhyw broblemau yn trefnu lleoliadau Cymraeg a dwyieithog ar gyfer myfyrwyr y cyrsiau hyn.

Yn gyffredinol, ac ar draws holl gyrsiau'r Ysgol Addysg, y mae natur eu meysydd astudio yn sicrhau nad yw myfyrwyr yn cael anawsterau wrth ddarganfod lleoliadau Cymraeg a dwyieithog.

5.8.2 Bu lleoliadau gwaith hefyd yn rhan orfodol o raddau'r Adain Daearyddiaeth ac Astudiaethau Rhanbarth sydd bellach yn rhan o Ysgol yr Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol. Mae'r lleoliadau hyn yn cyfateb i 40 credyd yn y graddau BA a BSc a hyd at 40 credyd yn y graddau Meistr. Mae'r lleoliadau hyn yn cael eu cyflawni ar ffurf bloc o ugain niwrnod tuag at ddiwedd semester 2 ym mlwyddyn 1 a 2. [Mae hyn yn gyfystyr â thua 100 awr o brofiad ar gyfer pob 10 credyd] Mae cyfle hefyd i fyfyrwyr gwblhau lleoliad proffesiynol dewisol ar ffurf diwrnod o'r brifysgol yn ystod semester 1 a 2. Y bwriad yw cynyddu'r arfer yma, yn enwedig yn y graddau hynny sydd â ffocws proffesiynol. Er bod un aelod o staff yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith, y myfyrwyr eu hunain fydd yn gwneud y trefniadau a hefyd yn cadarnhau'r Cytundeb Lleoliad. Mae nifer helaeth o'r lleoliadau hyn mewn sefydliadau Cymreig, ac mewn llawer iawn o'r achosion hynny, y Gymraeg fydd cyfrwng y gwaith. Mae'r adain dan sylw yn rhoi cryn bwyslais ar y lleoliadau hyn, gan fod 69% o'i myfyrwyr yn mynd i swyddi yn ystod eu blwyddyn gyntaf ar ôl graddio, a llawer ohonynt yn sgil lleoliadau llwyddiannus.

5.8.3 Mae'r Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd yn ystyried cefndir iaith myfyrwyr wrth eu lleoli yn unol â Pholisi Iaith yr Ysgol (2004), "Caiff myfyrwyr eu pennu i leoliadau clinigol mewn amgylchedd lle mae'r iaith yn amlwg yn hyrwyddo eu hanghenion." (3.2.7). Mae'r cwrs mentora yn cyfeirio at fentora yn y lleoliad dwyieithog ac mae adnoddau priodol ar gael.

5.8.4 Mae myfyrwyr y cwrs BA (Anrhydedd) mewn Gwaith Cymdeithasol yn treulio cyfanswm o 200 diwrnod ar leoliad. Mae'r tîm cwrs yn cydweithio'n agos gyda phartneriaid lleol sy'n gyfrifol am leoli'r myfyrwyr gydag asiantaethau yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Mae nifer cynyddol o'r asiantaethau yn disgwyl i'r myfyrwyr allu cyfathrebu yn llafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.

5.9 Tystiolaeth Berthnasol o fannau eraill

5.9.1 Mae ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a chwestiynau yn ymwneud â'r defnydd o'r iaith yn academaidd ac yn weinyddol wedi eu normaleiddio yn y broses sicrhau ansawdd o fewn y brifysgol. Fel y dangoswyd mewn adroddiadau blaenorol, y mae cyfeiriadau niferus o fewn y rhestr a ddefnyddir i ragrybuddio adrannau ac ar gyfer y rhai sy'n gweithredu'r asesiad y bydd materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu hystyried.

5.9.2 Yn ystod y flwyddyn dan sylw, derbyniwyd adroddiad terfynol yr Aseswyr Sefydliadol i Bwyllgor Ymgynghorol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gais y brifysgol am bwerau dyfarnu graddau. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar arolwg dwys a gynhaliwyd trwy gydol y flwyddyn academaidd 2005/6. Y mae'r adroddiad terfynol yn cynnwys nifer dda o sylwadau cadarnhaol iawn am y modd y mae'r brifysgol yn gwireddu ei dyheadau mewn perthynas â'r Gymraeg yn gyffredinol, ac yn fwy penodol, o ran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Rhoddir clod neilltuol i waith ac arweiniad TASIG yn hyn o beth.

5.9.3 Mae canlyniadau'r Arolwg Boddhad Myfyrwyr ar gyfer 2006/7 a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2007 hefyd yn cynnig tystiolaeth gadarnhaol o'r modd y mae'r sefydliad yn gweithredu ei Gynllun Iaith. O blith 41 o eitemau y gofynnwyd i fyfyrwyr ymateb iddynt ar raddfa o 1 i 5, roedd "argaeledd gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg" ac "argaeledd gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg" yn drydydd a phedwerydd o ran lefelau boddhad, gyda sgoriau cymedrig o 4.1 a 4.0. Mae'n deg ychwanegu nad oedd lefel boddhad myfyrwyr gydag "argaeledd modiwlau cyfrwng Cymraeg" lawn mor gadarnhaol gyda sgôr gymedrig o 3.6. Mae'r sgôr hwnnw, serch hynny, yn uwch na'r hyn a gafwyd yn y tri arolwg blaenorol. Cymerwyd rhan yn yr arolwg gan gyfanswm o 959 o fyfyrwyr.

Adran 6 :: Amserlen

6.1 Fel yr amlinellwyd yn rhannau rhagarweiniol yr adroddiad hwn, y mae cyfundrefn gref o bwyllgorau yn ei lle i oruchwylio'r modd y mae'r Cynllun Iaith yn cael ei weithredu a thargedau yn cael eu cyflawni. Rhan greiddiol o'r gyfundrefn honno yw PYCI, sef y panel sy'n gyfrifol am y gwaith o oruchwylio gweithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd. Gan fod y panel hwn o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor Cyfrwng Cymraeg ac Ehangu Cyfranogaeth yn cyfarfod yn gyson, gellir dweud bod y broses o fonitro'r Cynllun yn un barhaus. Ymhlith yr eitemau cyson ar raglen PYCI y mae ymdrin â chwynion. Mae cylch gorchwyl PYCI hefyd yn golygu fod pwyslais ar sicrhau fod gwahanol dargedau yn cael eu cyflawni o fewn amser yn ogystal â gosod targedau newydd.

6.2 Wrth edrych yn benodol ar y modd yr ymatebwyd yn ystod y flwyddyn, y mae'n deg nodi bod trwch y targedau wedi'u cyflawni yn unol â'r amserlen a osodwyd. Gellir priodoli mwyafrif yr achosion lle methwyd â gwneud hynny i faterion staffio neu'r broses o ail-strwythuro o fewn y brifysgol a fu ar y gweill trwy gydol 2006/7.

6.3 Cafwyd cyfanswm o 11 o gwynion swyddogol yn ystod y cyfnod 2006/7. Nodir manylion y cwynion unigol yn y tabl isod ynghyd â chrynodeb o'r dull

gweithredu, ond yn unol ag ystyriaethau'r Ddeddf Gwarchod Data, ni chyfeirir at enwau unigolion.

Dyddiad	Natur y gŵyn	Dull gweithredu
Hydref 2006	Derbyniwyd cwyn gan aelod o staff bod y Taflenni Amser (*Timesheets*) y mae disgwyl i staff sy'n gweithio ar brosiectau a gyllidir gan gronfeydd Ewropeaidd eu llenwi yn uniaith Saesneg.	Ysgrifennwyd at y Cyfarwyddwr Cyllid yn tynnu sylw at y sefyllfa ac yn gofyn iddo sicrhau bod y swyddfa Gyllid yn darparu taflenni dwyieithog. Cafwyd gwybod ganddo fod y brifysgol wedi sicrhau system gyfrifiadurol newydd ar gyfer gofynion Cyllid ac Adnoddau Dynol. Mae'r system honno (*Agresso*) yn cael ei chyfieithu gan bwyll gan yr Uned Gyfieithu. Maes o law, bydd hynny, yn sicrhau y bydd yr holl ddogfennaeth y bydd y system yn gyfrifol amdani ar gael yn ddwyieithog. (Nodwyd bod galluoedd amlieithog y system newydd yn un o'r prif resymau dros ei phrynu).
Hydref 2006	Am yr ail flwyddyn yn olynol, cafwyd cwyn gan fyfyriwr ôl-radd o'r Ysgol Gwyddorau Cymdeithas fod pob un cyflwyniad a phob un ddogfen a dderbyniodd gan yr ysgol yn ystod yr wythnos groeso yn uniaith Saesneg.	Gan fod yr yn gŵyn yn union wedi'i derbyn y llynedd ac addewidion wedi'u gwneud bryd hynny na fyddai'r sefyllfa yn cael ei hailadrodd, cynullwyd panel o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-ganghellor (cyfrwng Cymraeg) i roi ystyriaeth ffurfiol i'r gŵyn. Roedd aelodau'r panel yn cynnwys y Cofrestrydd Academaidd, Cyfarwyddwr y Cynllun Iaith a chyd-gysylltydd Cynllun Iaith yr Ysgol. Yn dilyn eu trafodaethau cytunodd pennaeth yr Ysgol i: ✓ ysgrifennu at y myfyriwr yn ymddiheuro am yr hyn

		a ddigwyddodd ✓ ymrwymo i gynnal trafodaethau gyda Chanolfan Bedwyr gyda golwg ar bennu targedau pendant yn yr Ysgol ar gyfer gweithredu egwyddorion y Cynllun Iaith, yn arbennig yn ei hymwneud â'i myfyrwyr
Hydref 2006	Derbyniwyd nifer o gwynion gan aelodau staff ac aelodau o'r cyhoedd bod y Gymraeg ar arwydd ger swyddfa'r Porthorion yn eithriadol o wallus.	Cysylltwyd â'r Adran Ystadau i dynnu eu sylw at y mater. Darparwyd cyfieithiad cywir a gosodwyd arwydd newydd yn ei le.
Hydref 2006	Derbyniwyd cwyn gan fyfyriwr ôl-radd iddo dderbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan y Swyddfa Gyllid.	Wedi ymchwilio i'r gŵyn gwelwyd bod dewis iaith y myfyriwr wedi'i gam-gofnodi gan y Swyddfa Gyllid. Unionwyd y gwall ac anfonwyd gohebiaeth Gymraeg ac ymddiheuriad i'r myfyriwr dan sylw.
Hydref 2006	Derbyniwyd nifer o gwynion mewnol ac allanol mewn ymateb i gymal mewn swydd ddisgrifiad gan yr Ysgol Hanes a oedd yn nodi mai'r Saesneg oedd iaith waith y brifysgol.	Diwygiwyd y cymal ac atgoffwyd pennaeth yr ysgol o'r angen i gydymffurfio â gofynion a geiriau'r Cod Ymarfer wrth lunio hysbysebion a swydd ddisgrifiadau.
Tachwedd 2006	Derbyniwyd cwyn gan fyfyriwr fod e-fwletinau y Coleg Celfyddydau a Dyniaethau i'w myfyrwyr ôl-radd yn uniaith Saesneg.	Trefnwyd cyfarfod gyda'r aelod o staff a oedd yn gyfrifol am y bwletinau a chytunodd i'w paratoi yn ddwyieithog.
Tachwedd 2006	Derbyniwyd cwynion gan aelodau staff bod testun Cymraeg eithriadol o wallus ar arwyddion newydd ar ddrysau tân y Prif Adeilad.	Cysylltwyd â'r Adran Ystadau i dynnu eu sylw at y mater. Darparwyd cyfieithiad cywir a gosodwyd arwyddion newydd yn eu lle.

Rhagfyr 2006	Derbyniwyd cwyn gan fyfyriwr iddo wneud cais yn Gymraeg am dystysgrif yn tystio ei fod yn fyfyriwr cofrestredig, ond iddo dderbyn tystysgrif uniaith Saesneg gan y Gofrestrfa Academaidd.	Anfonwyd ymddiheuriad a thystysgrif Gymraeg i'r myfyriwr dan sylw.
Chwefror 2007	Derbyniwyd cwyn gan aelod o staff nad oedd ffurflenni yn cofnodi salwch ac absenoldeb ar gael yn Gymraeg ar wefan Adnoddau Dynol.	Cysylltwyd ag Adnoddau Dynol a chafwyd gwybod bod y ffurflenni ar gael yn Gymraeg ond nad oedd y dolenni ar y wefan yn cyfeirio atynt. Cywirwyd y dolenni ar unwaith.
Mai 2007	Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd trwy law Bwrdd yr Iaith ynghylch cost cyrsiau Cymraeg i Oedolion.	Cysylltwyd gyda'r tîm Cymraeg i Oedolion yn yr Ysgol Dysgu Gydol Oes a pharatowyd ateb llawn i Fwrdd yr Iaith yn amlinellu'r ffaith fod prisiau a thelerau'r cyrsiau yn rhesymol iawn yng nghyd-destun cyrsiau cyfatebol i oedolion.
Mehefin 2007	Derbyniwyd cwyn gan aelod o staff iddo dderbyn holiadur uniaith Saesneg gan Adnoddau Dynol.	Ymchwiliwyd i'r mater gan Adnoddau Dynol a chanfuwyd nad oedd dewis iaith yr aelod o staff wedi'i gofnodi'n gywir. Anfonwyd ymddiheuriad ato ynghyd â chopi Cymraeg o'r holiadur.

Adran 7 :: Ffurflen Dargedau

7.1 Gweinyddol

TARGEDAU	GWEITHREDU	AMSERLEN	CYFLAWNWYD	MANYLION PELLACH
Targed 1	Ar ôl ychwanegu'r targedau academaidd newydd (gw. 8.2 Targed 1 isod), llywio'r Cynllun Iaith diwygiedig trwy broses o ymgynghori.	Haf 2007	Yn rhannol	Ar ôl ei dywys drwy'r holl bwyllgorau perthnasol, cyflwynwyd y Cynllun Iaith academaidd newydd i sylw'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2007 gyda'r gobaith o allu cyfuno'r cynlluniau gweinyddol ac academaidd yn ystod Hydref 2007. Gan nad oedd y Bwrdd yn fodlon ar nifer o agweddau ar y Cynllun Academaidd, bu oedi pellach ar y gwaith.
Targed 2	Cynnal awdit llawn o alluoedd ieithyddol holl staff y brifysgol	Gwanwyn 2007	Do	Cynhaliwyd awdit llawn gan Adnoddau Dynol ym mis Mehefin 2007. Bydd ymdrechion i sicrhau rhagor o ymateb i'r awdit yn weithredol trwy gydol 2007/8.
Targed 3	Cynnal arolwg o isadeiledd gweinyddol y colegau newydd o safbwynt eu gallu i gyflawni gofynion y Cynllun Iaith.	Mehefin 2007	Yn rhannol	Gan nad oedd rhai o'r colegau wedi penodi rheolwyr gweinyddol cyn diwedd y flwyddyn dan sylw na chytuno ar eu strwythurau gweinyddol, dim ond mewn tri o'r colegau

				yr aethpwyd ati i gynnal bras arolwg o'r modd y mae eu hisadeiledd gweinyddol yn hwyluso eu gwaith yn cyflawni gofynion y cynllun iaith. Dyma darged y bydd angen ail-ymweld ag ef pan fydd y strwythurau colegol wedi cael cyfle i ymsefydlu.
Targed 4	Adeiladu ar wefan y Cynllun Iaith trwy greu cronfa o adnoddau ymarferol mewn cydweithrediad â'r Uned Gyfieithu.	Haf 2007	Yn rhannol	Er bod peth deunydd yn ei le, y mae cryn waith i'w wneud o hyd o ran ychwanegu adnoddau ymarferol.
Targed 5	Ymateb i ganfyddiadau'r holiadur ar ddewis iaith gohebu myfyrwyr a gofrestrwyd fel siaradwyr Cymraeg.	Semester 2	Do	Dangosodd yr holiadur bod myfyrwyr yn ffafrio gohebiaeth/dogfennaeth ddwyieithog yn hytrach nag uniaith Gymraeg, ac felly'n cyd-fynd â'r polisi cyffredinol o ddarparu gohebiaeth/dogfennaeth ddwyieithog. Y mae teimlad yn parhau, serch hynny, fod angen trafodaeth bellach ar sut yn union i sicrhau fod gan fyfyrwyr ddewis ar y naill law ochr yn ochr â'r angen i gynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n nodi eu bod yn dymuno derbyn gohebiaeth Gymraeg.
Targed 6	Monitro'r defnydd a wneir gan Ysgolion Academaidd o'r deunyddiau academaidd a gyfieithir ar eu rhan gan yr Uned Gyfieithu.	Semester 2	Na	Penderfynwyd trosglwyddo'r targed hwn i ymarferiad monitro 2007/8 er mwyn rhoi cyfle digonol yn y lle cyntaf i wneud awdit llawn o'r deunyddiau academaidd a gyfieithwyd yn ystod y ddwy flynedd

				ddiwethaf.
Targed 7	Ystyried effaith ac oblygiadau canoli'r system recriwtio myfyrwyr ar y Gymraeg.	Semester 2	Yn rhannol	Fe roddwyd ystyriaeth i effaith canoli'r system dderbyniadau, ond cytunwyd y byddai'n anodd cael dadansoddiad meintiol o'r effaith hwnnw. Cynigiwyd y dylid trafod y mater ymhellach yn TASIG.
Targed 8	Ymgorffori gofynion y 'Cod Ymarfer ar gyfer penodi staff yn unol â'r Cynllun Iaith' o fewn system *e-works*.	Semester 2	Do	Cwblhawyd y gwaith hwn ym mis Mehefin. Yn ymarferol, nid oes modd i unrhyw swydd fynd drwy'r broses awdurdodi bellach heb fod penderfyniad pendant yn cael ei wneud ar y gofyn ieithyddol.
Targed 9	Parhau i ymateb i gwynion mewnol ac allanol.	Parhaus	Do	
Targed 10	Parhau i fonitro pob agwedd ar weithredu'r Cynllun Iaith.	Parhaus	Do	

7.2 Darpariaeth Academaidd

TARGEDAU	GWEITHREDU	AMSERLEN	CYFLAWNWYD	MANYLION PELLACH
Targed 1	Cytuno ar dargedau academaidd newydd o fewn strwythur y colegau newydd a'u hymgorffori yn y Cynllun Iaith diwygiedig.	Gwanwyn 2007	Do	Cytunwyd ar y targedau yn ystod Gwanwyn 2007 a throsglwyddwyd y Cynllun Iaith Academaidd i sylw'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2007.
Targed 2	Cynnal adolygiad mewnol o effaith Cynllun Cymrodoriaethau ac Ysgoloriaethau'r Ganolfan Datblygu Addysg Gymraeg ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y brifysgol.	Haf 2007	Do	Digwyddodd yr ymarferiad hwn yng nghyswllt y broses o gytuno ar dargedau gydag ysgolion academaidd ar gyfer y Cynllun Iaith.
Targed 3	Cynnal awdit i fesur yr elfen Gymraeg o fewn holl fodiwlau'r brifysgol.	Haf 2007	Do	Cyflawnwyd y gwaith hwn gan y Swyddfa Gynllunio fel rhan o'r broses cywain data ar gyfer ymarferiad HESA.
Targed 4	Cynnal adolygiad o nifer y cofrestriadau ar fodiwlau medrau iaith Canolfan Bedwyr gyda golwg ar gynyddu'r niferoedd ar draws y brifysgol.	Haf 2007	Do	Cynhaliwyd adolygiad ar derfyn y flwyddyn academaidd, ac yn wyneb y gostyngiad pellach yn y niferoedd, penderfynwyd peilota cynllun i ymgorffori darpariaeth gloywi iaith o fewn modiwlau sgiliau rhai ysgolion academaidd.

8 Targedau Newydd

8.1 Gweinyddol

TARGEDAU	GWEITHREDU	AMSERLEN	CYFRIFOLDEB	MANYLION PELLACH
Targed 1	Ar ôl cyfuno'r Cynllun Iaith Gweinyddol a'r Cynllun Iaith Academaidd mewn un ddogfen gydlynus, llywio'r Cynllun Iaith diwygiedig trwy broses o ymgynghori.	Gwanwyn 2008	Is-Ganghellor (Cyfrwng Cymraeg ac Ehangu Cyfranogiad) a Chyfarwyddwr Canolfan Bedwyr	
Targed 2	Parhau â'r arolwg o isadeiledd gweinyddol y colegau newydd o safbwynt eu gallu i gyflawni gofynion y Cynllun Iaith.	Trwy'r flwyddyn	Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr a Swyddog Datblygu a Hyrwyddo'r Gymraeg	
Targed 3	Darparu cyfieithiad llawn o system *Agresso*.	Erbyn Haf 2008	Canolfan Bedwyr	
Targed 4	Cynnal awdit llawn o'r gwahanol ofynion ieithyddol sy'n cael eu clustnodi ar gyfer swyddi a awdurdodir trwy e-work.	Ionawr – Awst 2008	Adnoddau Dynol	

Targed 5	Cynnal ymarferiad adnabod anghenion gyda nifer o adrannau gwasanaeth ac ysgolion academaidd.	Semester 2	Swyddog Datblygu a Hyrwyddo'r Gymraeg	
Targed 6	Penodi cyfieithydd-ar-y-pryd arbenigol gyda brîff datblygol i hyrwyddo'r ddarpariaeth ar draws ysgolion a cholegau'r brifysgol, mewn cyfarfodydd a sesiynau dysgu.	Erbyn Haf 2008	Is-Ganghellor (Cyfrwng Cymraeg ac Ehangu Cyfranogiad) a Chyfarwyddwr Canolfan Bedwyr	
Targed 7	Parhau i ymateb i gwynion mewnol ac allanol.	Parhaus	PYCI	
Targed 8	Parhau i fonitro pob agwedd ar weithredu'r Cynllun Iaith.	Parhaus	PYCI, TASIG a'r Pwyllgor Dwyieithrwydd	

8.2 Darpariaeth Academaidd

TARGEDAU	GWEITHREDU	AMSERLEN	CYFRIFOLDEB	MANYLION PELLACH
Targed 1	Llunio cynlluniau datblygu i'r ysgolion academaidd sydd â'u bwriad ar arwain y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol.	Semester 2	Yr Ysgolion Academaidd mewn ymgynghoriad â'r Is-ganghellor Cyfrwng Cymraeg	
Targed 2	Cynnal ymarferiad i ganfod gwybodaeth am iaith astudio myfyrwyr PhD	Medi 2007	Y Cofrestrydd Academaidd	
Targed 3	Peilota'r syniad o ymgorffori darpariaeth gloywi iaith o fewn modiwlau ysgolion academaidd.	Semester 2 ar gyfer 2008/9	Canolfan Bedwyr	
Targed 4	Cynnal arolwg o broffil oedran staff academaidd cyfrwng Cymraeg.	Haf 2008	Cyfarwyddwr Canolfan Bedwyr ar y cyd ag Adnoddau Dynol	

ATODIAD 1

YSTADEGAU IAITH GYMRAEG

2006/7